Adolygiad o Strategaethau Ehangu Mynediad sefydliadol Cymru o 2006/07 i 2008/09 a'r Cynigion wedi'u Hariannu Ymgyrraedd yn Ehangach 2008/10

Adolygiad o Strategaethau Ehangu Mynediad sefydliadol Cymru o 2006/07 i 2008/09 a'r Cynigion wedi'u Hariannu Y*mgyrraedd yn Ehangach* 2008/10

gan

Yr Academi Addysg Uwch

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol

1. **Introduction**
   - *1.1 Nodau ac amcanion yr adolygiad*
   - *1.2 Ymagwedd*
   - *1.3 Ehangu mynediad ac ehangu cyfranogi*

2. **Hanes a datblygiad ehangu mynediad yng Nghymru**

3. **Blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ehangu mynediad i addysg uwch**

4. **Cyd-destun ar gyfer ehangu mynediad yng Nghymru**
   - *4.1 Ffactorau economaidd-gymdeithasol y presennol a'r dyfodol yng Nghymru*
   - *4.2 Gwybodaeth gyd-destunol arall: polisïau a blaenoriaethau*

5. **Rôl Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru**

6. **Ymagweddau sefydliadol at Ehangu mynediad**
   - *6.1 Cwmpas, strwythur, a chynnwys cyffredinol strategaethau ehangu mynediad*
   - *6.2 Cysylltiadau â strategaethau sefydliadol ac amcanion strategol sefydliadol eraill.*
   - *6.3 Arweinyddiaet, mewnosod a newid diwylliannol*
   - *6.4 Grwpiau targed*
   - *6.5 Cadw myfyrwyr a chefnogaeth sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr*
   - *6.6 Cyfrwng Cymraeg*

7. **Ymagweddau sefydliadol at anabledd, cydraddoldeb ac amrywiaeth**
   - *7.1 Gofynion strategol*
   - *7.2 Ymagweddau rhagweithiol a'r sefydliad cyfan*
   - *7.3 Casglu a defnyddio data*
   - *7.4 Myfyrwyr yn cymryd rhan*
8. **Argymhellion ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch**

9. **Datblygu Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach**
   - *9.1 Y Partneriaethau*
   - *9.2 Gweithgareddau partneriaeth*
   - *9.3 Cymorth hirdymor ar gyfer darpar fyfyrwyr*
   - *9.5 Ymagweddau at gymorth hirdymor yn Lloegr*
   - *9.5 Adolygiad ac archwiliad critigol*

9.6 Arfer effeithiol ac Ymgyrraedd yn Ehangach

10. Argymhellion ar gyfer Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach

11. Ariannu ehangu mynediad a'r fenter Ymgyrraedd yn Ehangach
11.1 Defnyddio cyllid CCAUC ar gyfer ehangu mynediad ac Ymgyrraedd yn Ehangach
11.2 Cynaliadwyedd ehangu mynediad Ymgyrraedd yn Ehangach
11.3 Ffioedd myfyrwyr

12. Monitro a gwerthuso ehangu mynediad
12.1 Monitro sefydliadol
12.2 Targedau ehangu mynediad
12. 3 Gwerthuso ac asesu effaith ehangu mynediad

13. Argymhellion ar gyfer CCAUC a/neu Lywodraeth Cynulliad Cymru

14. Casgliadau

14.1 Strategaethau ehangu mynediad sefydliadol
14.2 Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach

15. Argymhellion
15.1 Argymhellion ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch
15.2 Argymhellion ar gyfer Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach
15.3 Argymhellion ar gyfer CCAUC a/neu Lywodraeth Cynulliad Cymru

Atodiad 1 - Dogfennaeth sy'n cefnogi'r adolygiad

Atodiad 2 – Cylchlythyrau CCAUC sy'n gysylltiedig ag Ehangu Mynediad 2006/2009

Atodiad 3 – Ystod ddangosol o weithgareddau a ddatblygwyd gan y Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach

Atodiad 4 – Buddion yn Codi o'r Fframwaith Dilyniant Addysg Uwch (HEPF) yn Lloegr

Crynodeb Gweithredol

Mae'r crynodeb hwn yn cyflwyno'r prif ddarganfyddiadau ac argymhellion sy'n codi o'r adolygiad o strategaethau ehangu mynediad sefydliadol Cymru 2006 i 2010 a'r cynigion Ymgyrraedd yn Ehangach 2008 i 2010. Comisiynwyd yr adolygiad gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ac fe'i cynhaliwyd gan Yr Academi Addysg Uwch (yr Academi) rhwng Tachwedd 2008 ac Ebrill 2009.

Nodau ac amcanion yr adolygiad

Prif nodau'r adolygiad gan Yr Academi Addysg Uwch oedd hysbysu'r sector Addysg Uwch yng Nghymru a'r adrannau priodol o Lywodraeth Cynulliad Cymru am y cynnydd o ran ehangu mynediad ac i gyfrannu at feddwl strategol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar ehangu mynediad a'r Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach. Er mwyn cyflawni'r nodau cymharodd tîm yr Academi strategaethau ehangu mynediad a chynigion Ymgyrraedd yn Ehangach gydag amcanion polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ystyriodd ymagweddau at ehangu mynediad o fewn sefydliadau Addysg Uwch a Phartneriaethau rhanbarthol.

Cyd-destun

Wrth baratoi'r adolygiad rhoddwyd sylw i'r cefndir a'r cyd-destun o ran ehangu mynediad o fewn Cymru. Roedd hyn yn cynnwys cyfeirio at y polisïau allweddol canlynol:

- Polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru a amlinellir yn *Ymgeisio yn Uwch: Addysg Uwch a'r Wlad sy'n Dysgu; Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith; Cymru: Economi yn Ffynnu; Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru a'r Cynllun Gweithredu* cysylltiedig*; Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru; Ymagwedd Newydd at Ddysgu Cymunedol i Oedolion (ACL);*
- *Prosperity for All in the Global Economy - World Class Skills* (adroddiad Leitch);
- *Addewid a Chyflawniad: Yr Adolygiad Annibynnol o Genhadaeth a Phrwpas Addysg Bellach yng Nghymru yng nghyd-destun Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith* (adroddiad Webb);
- *Adolygiad Graham o Gynlluniau Astudio Addysg Uwch Rhan Amser yng Nghymru*;
- *Adolygiad o Addysg Uwch yng Nghymru Cam 1* (adroddiad Jones).

Ar adeg ysgrifennu'r adolygiad hwn nid oedd Cam 2 o'r *Review of Higher Education in Wales (*adroddiad Jones) ar gael. Dylid hefyd nodi y datblygwyd strategaethau ehangu mynediad sefydliadol ac amcanion Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach cyn y cyd-destun economaidd-gymdeithasol ac ariannol anodd ar hyn o bryd.

Mae'r gweithgareddau ehangu mynediad o fewn sefydliadau Addysg Uwch Cymru a'r Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach wedi ceisio ymdrin â

gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a osodwyd yn *Ymestyn yn Uwch* drwy '… *ddarparu addysg uwch i'r rhai sydd â'r gallu i elwa ohoni.*'. Er mwyn datblygu, annog ac arwain mentrau ehangu mynediad, mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi darparu arian wedi'i dargedu, wedi cefnogi'r Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach, wedi darparu cylchlythyron ac adroddiadau arwain a chynghori, ac wedi monitro darpariaeth.

Ymagweddau sefydliadol at ehangu mynediad

Dangosodd yr adolygiad hwn fod sefydliadau addysg uwch yng Nghymru wedi'u hymrwymo'n gryf iawn i ehangu mynediad ac wedi datblygu ymagweddau at ehangu mynediad a oedd yn gysylltiedig â'u cenadaethau.

Roedd yr adolygiad yn ystyried bod strategaethau ehangu mynediad yn cwmpasu blaenoriaethau a chyfeiriad strategol yn ogystal â manylder gweithredol a bod y strategaethau ar ffurf na fyddai o bosibl yn hygyrch yn rhwydd i staff sefydliadau yn gyffredinol. Roedd y rhan fwyaf o sefydliadau wedi sefydlu trefniadau arweinyddiaeth cadarn i arwain a chyfarwyddo polisïau ac ymagweddau canolog o ran ehangu mynediad. Ar hyn o bryd nid yw'n ymddangos bod datblygiad cryf yn bodoli o ran datganoli rheoli ehangu mynediad i ysgolion ac adrannau academaidd.

Cafodd blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ddylanwad cryf ar grwpiau targed a nodwyd mewn strategaethau sefydliadol: wardiau Cymunedau'n Gyntaf, pob grŵp oedran, grwpiau ethnig a rhai lleiafrifol eraill, myfyrwyr anabl, siaradwyr y Gymraeg a phobl ifanc sydd â chefndir mewn gofal. Dangosodd strategaethau ehangu mynediad fod sefydliadau Cymru i gyd yn gweithio i wella cefnogi a chadw myfyrwyr ac roedd rhai ohonynt wedi datblygu strategaethau cadw cyflenwol. Yn nhermau cynyddu addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg, mae'r sector wedi sefydlu strategaeth a fframwaith cenedlaethol ar gyfer cyflawni newid sylweddol o ran cyfaint ac ystod y ddarpariaeth.

Anabledd, cydraddoldeb ac amrywiaeth

Roedd strategaethau ehangu mynediad sefydliadol yn amrywiol iawn o ran helaethder eu cyfeirio at anabledd, cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn gyffredinol ni wnaed y defnydd gorau o'r cyfle i roi arfer cynhwysol o fewn cyd-destun eang ehangu mynediad. Nid oedd casglu data ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ymddangos yn gyffredinol i gael eu defnyddio i adeiladu sail o dystiolaeth er mwyn galluogi cymhariaeth effeithiol ar draws sefydliad neu i fonitro cynnydd ar gyfer myfyrwyr, rhaglenni ac unedau academaidd.

Datblygu Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach

Canolbwyntiodd gweithgareddau'r Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach ar y grwpiau blaenoriaeth allweddol a nodwyd uchod. Dangosodd dogfennaeth fod y Partneriaethau wedi bod yn llwyddiannus iawn o ran cynhyrchu ystod sylweddol o weithgareddau a dros y blynyddoedd mae hyn wedi arwain at ddarparu cannoedd o ddigwyddiadau i filoedd o gyfranogwyr.

O fewn y cynigion Ymgyrraedd yn Ehangach yn gyffredinol doedd dim mwy na sôn am y partneriaid nad oeddent ym myd Addysg Uwch ac felly roedd yn anodd mesur hyd eu mewnbwn strategol ac effeithiolrwydd cydweithio strategol Addysg Bellach ac Addysg Uwch o fewn y fframwaith Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach.

Roedd yn amlwg bod ar y Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach angen parhau i gyflwyno mwy o dracio a monitro myfyrwyr yn systematig er mwyn dangos ymyriadau effeithiol a dangos tystiolaeth o lwyddiant menter Ymgyrraedd yn Ehangach.

Ariannu

Yn gyffredinol, talodd sefydliadau sylw gofalus i adrodd ar ddefnydd arian CCAUC a dangos eu hatebolrwydd. Gellid dadlau y câi'r rhan fwyaf o weithgareddau ehangu mynediad mewnol sefydliad eu hystyried i fod yn gynaliadwy oherwydd eu bod yn ffurfio rhan bwysig o fusnes prif ffrwd y sefydliad (ee derbyniadau a dilyniant myfyrwyr).

I'r gwrthwyneb, gellid dadlau bod y gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r fenter Ymgyrraedd yn Ehangach yn weithgareddau tymor byr yn gyffredinol ac yn hollol ddibynnol ar arian menter Llywodraeth Cynulliad Cymru ychwanegol. Heb yr arian hwn byddai cynaliadwyedd y fenter hon o bosibl yn amheus iawn.

Monitro a gwerthuso

Yn gyffredinol, roedd y targedau ar gyfer ehangu mynediad a nodwyd gan sefydliadau wedi'u cyfyngu i restr o ddigwyddiadau a gweithgareddau, gyda, gan amlaf, amcangyfrif o'r nifer o ddigwyddiadau a chyfranogwyr. Rhoddodd y diffyg hwn o ran targedau strategol a mesuradwy a data cadarn bwyslais ar fewnbynnau yn hytrach nag ar ganlyniadau strategol, lefel uchel. At hyn, roedd ond ychydig o gyfeirio o fewn strategaethau ehangu mynediad sefydliadau at werthuso effaith y strategaethau.

Casgliadau cyffredinol

Dangosodd y ddogfennaeth a'r dystiolaeth a astudiwyd yn yr adolygiad ymrwymiad cryf iawn o fewn sefydliadau Cymru i ehangu mynediad a dangosodd hefyd dipyn o lwyddiant o ran darparu ystod eang o gyrsiau a digwyddiadau. Dangosodd dadansoddiad o'r targedau tymor byr, tymor canolig a hirdymor, fel ag yr oeddent, y cafodd adnoddau sylweddol eu rhoi i mewn i gefnogi myfyrwyr o fewn sefydliadau. Dangosodd strategaethau ehangu mynediad fod sefydliadau Addysg Uwch Cymru yn gweithio i wella cefnogi a chadw myfyrwyr drwy symud tuag at ddarparu cymorth hydredol cryf a oedd yn canolbwyntio ar anghenion myfyrwyr drwy gydol eu hamser mewn addysg uwch. Adlewyrchwyd effeithiolrwydd y cymorth hwn yng nghyfradd gyffredinol uchel bodlonrwydd myfyrwyr yn sector Cymru yn ei chyfanrwydd. Yn ogystal â hyn, dangosodd ystadegau Awdurdod Safonau Addysg Uwch (HESA) ledled y DU hyd at 2007/08 fod y sector Addysg Uwch yng Nghymru

wedi perfformio'n well yn gyson na sectorau Addysg Uwch eraill yn y DU dros nifer o flynyddoedd, ar ystod o ddangosyddion perfformiad ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Mae'r fenter Ymgyrraedd yn Ehangach a gefnogir gan CCAUC wedi galluogi datblygu ystod sylweddol o weithgareddau ac ymyriadau sy'n cynnwys colegau addysg bellach, ysgolion uwchradd, oedolion, cymunedau lleol, asiantaethau'r llywodraeth a busnesau lleol.

Mae CCAUC wedi darparu cymorth, canllawiau ac arian effeithiol ar gyfer gweithgareddau a mentrau ehangu mynediad o fewn sefydliadau unigol a'r Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach.

Yn gyffredinol, mae'r sector Addysg Uwch yng Nghymru yn ystod adeg y strategaeth *Ymestyn yn Uwch* wedi ymestyn yn sylweddol y cyfleoedd ar gyfer y rhai hynny i gyd sydd â'r gallu i ymgysylltu ag addysg uwch. Yn seiliedig ar ystadegau newydd-ddyfodiaid gellid ystyried sector Addysg Uwch Cymru i fod yr un mwyaf llwyddiannus yn y DU o ran denu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Mae'r ymagwedd yng Nghymru sy'n cynnwys strategaethau ehangu mynediad sefydliadol, Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach rhanbarthol a strategaethau cymalu i gysylltu'r ddau â'i gilydd yn ffurfio ymagwedd integredig a datblygedig at ehangu mynediad.

Yn ogystal â'r elfennau amlwg hyn o lwyddiant mae'r adolygiad cyfredol wedi nodi cyfleoedd ar gyfer datblygiad pellach o ran polisi ac arfer ynglŷn ag ehangu mynediad. Mae'r canlynol yn arbennig o bwysig:

- yr angen i sefydliadau Addysg Uwch ddatblygu gwerthusiad mwy effeithiol o lwyddiant ac effaith mentrau a gweithgareddau gydag, er enghraifft, olrhain myfyrwyr yn well drwy raglenni a digwyddiadau Ymgyrraedd yn Ehangach i mewn i addysg uwch;
- ystyriaeth o ddarparu mwy o raglenni sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr yn y fenter Ymgyrraedd yn Ehangach sy'n cefnogi myfyrwyr trwy ystod ddilyniannol o ddigwyddiadau cyn Addysg Uwch ac ymlaen i Addysg Bellach/Addysg Uwch;
- yr angen i sicrhau cynaliadwyedd gweithgareddau a gefnogir ar hyn o bryd drwy'r arian cymharol tymor byr sydd ar gael i Bartneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach.

Argymhellion

Dylai Sefydliadau Addysg Uwch:

1. Weithio tuag at ymagwedd sefydliad cyfan at ehangu mynediad, gan ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth, cymorth i fyfyrwyr, cadw myfyrwyr a'u llwyddiant a symud ymlaen y tu hwnt i Addysg Uwch (paragraffau 6.33, 7.13, 7.14, 7.21).

2. Parhau i sicrhau bod arweinyddiaeth glir gan y rheolaeth uwch, ymrwymiad i ac ymgysylltiad â'r agenda hwn, i barhau i hyrwyddo newid diwylliannol sefydliadol (paragraff 6.31).

3. Gweithio gyda'r holl staff i integreiddio ehangu mynediad a chydraddoldeb ac amrywiaeth o ran pob polisi, swyddogaeth a gweithgaredd y sefydliad, a thrwy gydweithio strategol (paragraff 6.33).

4. Casglu a monitro data ar ehangu mynediad, cydraddoldeb a llwyddiant myfyrwyr yn systematig er mwyn nodi tueddiadau a blaenoriaethau ar gyfer ymyriad a newid (paragraffau 6.43, 6.44, 7.15, 7.30, 7.31).

5. Defnyddio data sefydliadol, tystiolaeth o werthusiadau ac asesiadau effaith ar gydraddoldeb i archwilio effaith bosibl a gwirioneddol ymyriadau, polisi ac arfer (paragraffau 5.12, 6.53).

6. Darparu cyfleoedd parhaus i fyfyrwyr (gan gynnwys y rhai o grwpiau ehangu mynediad) i ymgysylltu'n ystyrlon â phrosesau gwneud penderfyniadau o fewn y sefydliad (paragraff 7.40).

Dylai Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach:

7. Mapio ymgysylltu cyfredol ac yn y dyfodol rhwng sefydliadau Addysg Uwch, rhwng Addysg Bellach ac Addysg Uwch, a darparwyr addysgol eraill, er mwyn nodi llwybrau dilyniant, yn enwedig mewn meysydd galwedigaethol (paragraff 6.42).

8. Darparu rhaglen gronnus a datblygiadol o weithgareddau er mwyn ymgysylltu â grwpiau o bobl o bob oedran a'u galluogi i symud ymlaen at Addysg Uwch a thrwyddi (paragraff 9.32).

9. Annog staff Ymgyrraedd yn Ehangach a sefydliadau'r Bartneriaeth i weithredu ar yr heriau a nodwyd gan yr archwiliadau rhanbarthol ac, yn benodol, i rannu arbenigedd a pholisïau ac arferion effeithiol o fewn eu sefydliadau eu hunain ac ar draws y sector (paragraffau 9.50, 9.61).

10. Ystyried rôl fwy i bartneriaid arwain arni heblaw am Sefydliadau Addysg Uwch, a darparu arian ychwanegol ar gyfer y gweithgareddau Partneriaeth hyn. (paragraffau 9.11, 11.24).

Dylai CCAUC a/neu Lywodraeth Cynulliad Cymru:

11. Ofyn i sefydliadau a Phartneriaethau gynhyrchu a chyflwyno strategaethau ehangu mynediad cryno sy'n darparu trosolwg o'u gwaith yn y maes hwn (hy. yn ymdrin ag ehangu mynediad, cydraddoldeb, cadw myfyrwyr, llwyddiant myfyrwyr a chysylltiadau â strategaethau eraill y sefydliad). Dylai'r strategaethau hyn gynnwys canlyniadau a cherrig milltir arfaethedig yn y tymor hir, canolig a byr. Dylid darparu gwybodaeth fwy manwl fel dogfennau atodedig. (paragraff 6.11).

12. Datblygu canllawiau, gan ymgynghori â'r sector, ar nodi a thargedu grwpiau ehangu mynediad, olrhain a monitro cynnydd myfyrwyr, diffinio canlyniadau a dangos effaith (paragraffau 6.53, 9.32, 9.51,12.33).

13. Annog sefydliadau Addysg Uwch i gasglu, dadansoddi a defnyddio'n systematig data ar ehangu mynediad, cydraddoldeb a llwyddiant myfyrwyr i lywio eu gwaith yn y maes hwn. Dylai'r cymorth hwn gymryd i ystyriaeth y system Rheoli Gwybodaeth ar Draws Partneriaid sy'n datblygu (paragraffau 6.43, 6.44, 7.30, 7.31, 12.33).

14. Ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau a Phartneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach i ddarparu adroddiadau monitro a diweddariadau blynyddol sydd, er enghraifft, yn dangos eu hymateb i' agendâu Cynulliad Cymru, gweithgareddau ar y cyd,, defnydd o arian yn ogystal ag effeithiolrwydd eu hymyriadau. Byddai'r adroddiadau hyn yn ffurfio sail i ddeialogau strategol ehangu mynediad rhwng Sefydliadau Addysg Uwch a CCAUC (paragraffau 5.12, 11.10, 12.30).

15. Adolygu cyfluniad y Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach i wneud y gorau o ddosbarthu adnoddau a hyfywdra'r Partneriaethau rhanbarthol yn y tymor hir (paragraff 9.14). Ystyried cynaliadwyedd yn y tymor hirach y fenter Ymgyrraedd yn Ehangach drwy ymgynghori â sefydliadau Addysg Uwch a'u partneriaid Ymgyrraedd yn Ehangach (paragraffau 9.14 11.23).

1. Cyflwyniad

1.1 Nodau ac amcanion yr adolygiad

1.10 Prif nodau'r adolygiad gan Yr Academi Addysg Uwch oedd:

- cyfrannu at feddwl strategol CCAUC ar bolisïau ac arferion ehangu mynediad (WA) ac Ymgyrraedd yn Ehangach (RW);
- rhoi gwybod i adrannau priodol o Lywodraeth Cynulliad Cymru, y Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach, a Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru (SAU) am gynnydd a llwyddiannau'r mentrau ehangu mynediad ac Ymgyrraedd yn Ehangach.

  Hefyd, roedd yr adolygiad yn ceisio rhoi gwybodaeth ar y lleoliad cyd-destunol ledled y DU ar gyfer ehangu mynediad i ganiatáu cymhariaeth â'r sector Addysg Uwch yng Nghymru.

1.11 Er mwyn cyflawni'r nodau uchod bu tîm yr Academi'n gweithio tuag at yr amcanion canlynol:

- cymharu strategaethau ehangu mynediad a chynigion Ymgyrraedd yn Ehangach ag amcanion polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn adnabod cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion hyn;
- mapio arfer a chymhariaeth systematig o weithgareddau ac ymagweddau o fewn Sefydliadau Addysg Uwch a Phartneriaethau rhanbarthol;
- cymharu, lle bo'n bosibl, ymagweddau strategol yng Nghymru at ehangu mynediad â datblygiadau ehangu cyfranogi/mynediad mewn mannau arall yn y DU;
- darparu darganfyddiadau, cymariaethau o arfer, casgliadau ac argymhellion i lywio datblygiad strategol y dyfodol o ehangu mynediad yng Nghymru.

1.2 Ymagwedd

1.20 Yn ogystal ag adolygu strategaethau ehangu mynediad sefydliadol ar gyfer 2006 i 2009 a'r cynigion Ymgyrraedd yn Ehangach ar gyfer 2008 to 2010, mae tîm yr Academi wedi astudio nifer o ddogfennau allweddol (gweler Atodiad 1). Roedd y dogfennau hyn yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth ar anabledd, cydraddoldeb ac amrywiaeth, fodd bynnag, ni fu'n bosibl, oherwydd cyfyngiadau amser, i astudio dogfennaeth sefydliadol ychwanegol yn y meysydd hyn (ee. Cynlluniau Cydraddoldeb Sengl a Chynlluniau Datblygiad ar gyfer Anabledd). Cafwyd mwy o wybodaeth ar arfer sefydliadol o'r gwerthusiad diweddar gan Arad Consulting a bydd yr adolygiad hwn yn cyfeirio at ddarganfyddiadau'r adroddiadau Arad. Hefyd cafwyd gwybodaeth ar y cynnydd a wnaed gan sefydliadau a'r Partneriaethau gan astudiaeth o ddatganiadau monitro blynyddol (AMS) ac archwiliadau critigol rhanbarthol Ymgyrraedd yn Ehangach.

1.21 Gosodwyd canllawiau ar gyfer yr adolygiad wrth ymgynghori â swyddogion CCAUC. Wrth inni ysgrifennu cafodd ail gam adolygiad Yr Athro Merfyn Jones ei gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru, ond ni chafodd ei wneud yn gyhoeddus ac ni dderbyniwyd ymateb gan y Gweinidogion.

1.22 Fel y dangosir uchod, roedd yr adolygiad yn astudiaeth ddesg o'r set sampl gymharol fach o strategaethau ehangu mynediad mewn sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru a phedwar cynnig Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach. O fewn yr amser a'r adnoddau a oedd ar gael ar gyfer yr adolygiad hwn nid oedd unrhyw fwriad i ddarparu argymhellion wedi'u teilwra i sefydliadau a Phartneriaethau unigol. Gan fod y strategaethau a'r cynigion a adolygwyd â natur braidd yn hanesyddol, mae'r adolygwyr yn hyderus y bydd gan rai sefydliadau a Phartneriaethau gamau mewn trefn sy'n mynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd yn argymhellion yr adolygiad.

1.23 Cynhaliwyd yr adolygiad ar gyfer Yr Academi Addysg Uwch gan Yr Athro Howard Colley, Dr Helen May, a'r Athro Liz Thomas.

1.3 Ehangu mynediad ac ehangu cyfranogiad

1.30 Ceir nifer o ddiffiniadau o ehangu mynediad ac ehangu cyfranogiad a cheir llawer o drafodaeth am y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng y ddau derm hyn. Yn yr adroddiad hwn defnyddiwyd ehangu mynediad o fewn cyd-destun a ddiffiniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a CCAUC. Mae'r ymagwedd yng Nghymru'n seiliedig ar *'cynyddu cyfleoedd i bobl sy'n dod o ystod amrywiol o gefndiroedd elwa ar addysg uwch'*. Mae strategaeth *Ymestyn yn Uwch* Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd wedi darparu esboniad pellach gan ddatgan ei chydnabyddiaeth bod '*ehangu mynediad i'r rhai a oedd heb gynrychiolaeth ddigonol yn draddodiadol yn addysg uwch yn dod â heriau newydd i gadw myfyrwyr'*. Felly, yn gyffredinol, mae ehangu mynediad yng Nghymru, gyda'i gysylltiadau â chyfiawnder cymdeithasol, recriwtio, dilyniant myfyrwyr a chadw myfyrwyr yn gymharol yn fras â'r agenda ehangu cyfranogiad yn Lloegr. Er enghraifft, mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr wedi amlinellu'r cylch gorchwyl ehangu cyfranogiad: *'i godi dyheadau a llwyddiant addysgol ymhlith pobl o gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i'w paratoi ar gyfer addysg uwch, sicrhau llwyddiant ar eu rhaglen astudio, gwella eu gobeithion am gyflogaeth ac agor posibiliadau ar gyfer astudio ôl-radd, a rhoi cyfleoedd iddynt ddychwelyd i ddysgu drwy gydol eu bywydau'* (http://www.hefce.ac.uk/widen).

2. Hanes a datblygiad ehangu mynediad yng Nghymru

2.10 Yn 2002, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru strategaeth deng mlynedd ar gyfer addysg uwch yng Nghymru: *Ymgeisio yn Uwch: Addysg Uwch a'r Wlad sy'n Dysgu* a osododd ei gweledigaeth strategol ar sut y byddai'r sector Addysg Uwch yn cyfrannu at gyflawni ei rhaglen o addysg a dysgu gydol oes i 2010. Roedd yr adroddiad yn cydnabod yr adeg honno bod y sector Addysg Uwch yng Nghymru yn cyfrannu'n sylweddol at wella hygyrchedd gyda 16% o newydd-ddyfodiaid israddedig yn dod o gymdogaethau cyfranogiad isel yng Nghymru, o'u cymharu â 13% yn y DU. Er hynny, mynnodd y strategaeth y dylai'r sector Addysg Uwch barhau i dorri i lawr y rhwystrau canfyddedig i grwpiau o dan anfantais a heb gynrychiolaeth ddigonol yn mynd i mewn i Addysg Uwch. Yn benodol, argymhellodd y strategaeth godi ymwybyddiaeth am lwybrau galwedigaethol at Addysg Bellach a thrwyddi a thynnu i lawr rhwystrau ffug rhwng darpariaeth Addysg Bellach ac Addysg Uwch.

2.11 Er mwyn ysgogi gweithgareddau arloesol a rhai ychwanegol yn ymwneud ag ehangu mynediad, darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru, ymhlith camau gweithredu eraill, arian ar gyfer gweithio gyda chymunedau sydd â hanes o fod heb gynrychiolaeth ddigonol ym myd addysg uwch (wardiau Cymunedau'n Gyntaf, cymunedau croenddu a lleiafrifoedd ethnig, myfyrwyr anabl a siaradwyr y Gymraeg). Cynyddodd CCAUC yr arian ar gyfer ehangu mynediad a chefnogodd sefydlu system cymwysterau sy'n seiliedig ar gredydau i gynyddu'r posibilrwydd o ddyfarnu credyd i unedau mewn rhaglenni dysgu hyblyg. Agwedd bwysig a gwahanol ar yr ymagwedd yng Nghymru oedd yr agwedd ar gyfer pob oedran i ehangu blaenoriaethau a thargedau hygyrchedd. Yn Lloegr, canolbwyntiodd y fenter gymharol Anelu'n Uwch ar y grŵp oedran 18-30.

2.12 Ers cyhoeddi *Ymestyn yn Uwch*(2002), mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu nifer o ddatblygiadau strategol arwyddocaol gan gynnwys *Cymru'n Un, Creu'r Cysylltiadau, Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith*; *Cymru: Economi yn Ffynnu; Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru a'i Gynllun Gweithredu cysylltiedig; Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru* a *Dull Gweithredu Newydd o ran Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL)*. Darparodd y dogfennau hyn bolisi a chyfarwyddyd ar addysg a oedd yn cynnwys datblygu a gwella llwybrau dysgu i'r rhai rhwng 14-19 oed; cryfhau darpariaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (ITT); mynd i'r afael ag anghenion o ran sgiliau ac ad-drefnu rhanbarthol addysg a hyfforddiant; datblygu strategaeth a gyfer dysgu i oedolion a dysgu cymunedol; a chynyddu cefnogaeth ar gyfer darpariaeth iaith Gymraeg. Mewn perthynas ag addysg uwch, roedd y polisïau hyn yn cydnabod pwysigrwydd gwella cadw myfyrwyr, gwella cyflogadwyedd graddedigion, cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a hyrwyddo ad-drefnu a gweithio ar y cyd rhwng Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru. Rhoddwyd mwy o arweiniad a chyfarwyddyd ar y datblygiadau strategol hyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ei llythyrau cylch gorchwyl blynyddol i CCAUC o 2006 i 2009.

2.13 Yn 2001, cyn y strategaeth *Ymgeisio yn Uwch,* gwahoddodd CCAUC sefydliadau i gyflwyno strategaethau ehangu mynediad ac mewn cylchlythyr yn 2002 (W02/40HE) cyflwynodd arian ar gyfer y strategaethau yn seiliedig ar gylchred tair blynedd ynghyd â Datganiad Anabledd. Darparodd CCAUC arian ar gyfer rhoi strategaethau ehangu mynediad ar waith yn gyffredinol (ariannu strategaethau ehangu mynediad) ac yn ogystal â hyn, arian penodol i Sefydliadau Addysg Uwch o dan ddau gategori mawr:

- ariannu premiwm ehangu mynediad er mwyn cefnogi myfyrwyr o gefndiroedd nad ydynt yn rhai traddodiadol;
- ariannu ar gyfer myfyrwyr anabl.

2.14 Hyd yma, cafodd dau gylchred o strategaethau ehangu mynediad eu cyflwyno: ar gyfer 2002/03 i 2004/05 (wedi'i ymestyn i 2005/06) a 2006/07 i 2008/09 wedi'i ymestyn i 2009/10. Addaswyd y dyraniadau ariannu yn y cylchred diweddarach o strategaethau ehangu mynediad gydag ariannu premiwm ychwanegol i gefnogi rhagor o fyfyrwyr o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf ac i weithio gyda myfyrwyr sy'n cael eu nodi fel rhai 'anodd eu cadw'. Dylid nodi hefyd y defnyddir ffynonellau eraill o ariannu CCAUC er enghraifft y grant craidd, ariannu ar gyfer myfyrwyr rhan-amser ac incwm ffioedd hyblyg gan Sefydliadau Addysg Uwch i gefnogi ehangu mynediad.

2.15 I gefnogi'r agenda ehangu mynediad yn benodol, ac i gydnabod pwysigrwydd y canolbwynt ad-drefnu a gweithio ar y cyd yn y strategaeth *Ymgeisio yn Uwch*, sefydlodd CCAUC, wrth ymgynghori â'r sector, y fenter Ymgyrraedd yn Ehangach yn 2002/03 gyda £2miliwn ychwanegol o arian Llywodraeth Cynulliad Cymru a neilltuwyd ar gyfer '*cynlluniau arloesol a leolir yn y gymuned'.* Mabwysiadodd y fenter Ymgyrraedd yn Ehangach ymagwedd o gynnwys pob oedran a nodwyd pedwar grŵp targed mawr: pobl o bob oedran mewn wardiau Cymunedau'n Gyntaf, myfyrwyr anabl, siaradwyr y Gymraeg a grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Sefydlwyd pedair Partneriaeth ranbarthol: Gogledd Cymru; Gorllewin a Chanolbarth Cymru, De Orllewin Cymru a De Ddwyrain Cymru (Campws Cyntaf). Cafodd y Partneriaethau eu rheoli gan Sefydliad Addysg Uwch arweiniol ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr uwch o Sefydliadau Addysg Uwch eraill, colegau addysg bellach, ysgolion, sefydliadau cymunedol a gwirfoddol, awdurdodau addysg lleol ac asiantaethau megis Gyrfa Cymru. Gwnaed dyraniadau o tua £2miliwn bob blwyddyn o 2003/04 hyd heddiw ac mae'r cynigion Ymgyrraedd yn Ehangach diweddaraf yn ymdrin â'r cyfnod o 2008/09 i 2009/10. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cadarnhau ariannu Ymgyrraedd yn Ehangach hyd at 2010/11.

2.16 Ers datblygu strategaethau ehangu mynediad a'r Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach, mae hi wedi bod yn ofynnol i sefydliadau hyrwyddo anabledd a chydraddoldeb yn unol â Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (diwygio) 2005 ac i gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Anabledd

3. Blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ehangu mynediad at addysg uwch

3.10 Yn *Ymestyn yn Uwch*gosododd Llywodraeth Cynulliad Cymru rai targedau allweddol ar gyfer y sector Addysg Uwch a oedd yn cynnwys:

- Bydd y canran o newydd-ddyfodiaid israddedig sy'n byw yng Nghymru sydd ar gyrsiau yn Sefydliadau Addysg Uwch neu Sefydliadau Addysg Bellach yn y DU ac yn byw yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yng Nghymru yn codi o 8.9% yn 2000/01 i 11.4% yn 2010/11. (*12% yn 06/07 ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru a 9.9% ar gyfer pob Sefydliad Addysg Uwch yn y DU yn 05/06*).

- Bydd y gyfran o fyfyrwyr Addysg Uwch sy'n byw yng Nghymru, sy'n mynd i Sefydliadau Addysg Uwch a Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru ac yn gwneud rhyw elfen o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, yn codi o 5.3% yn 2000/01 i 7% yn 2010/11. (*5.1% yn 06/07*).

3.11 Cydnabu targedau Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r ystadegau a oedd ar gael (gweler y cromfachau uchod) ar gyfer newydd-ddyfodiaid y byddai tyfiant cynyddol araf o ran myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i mewn i Addysg Uwch. Roedd hyn yn adlewyrchu cynnydd mewn mannau eraill yn y DU a chydnabu fod ehangu mynediad at Addysg Uwch yn agenda tymor hir heb unrhyw 'atebion cyflym'.

3.12 Mae'n werth nodi, yn hanesyddol, mai'r sector Addysg Uwch yng Nghymru oedd yr un mwyaf llwyddiannus yn y DU mewn perthynas â chyfranogiad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol (gweler Tabl 1). Dangosodd ystadegau gan HESA (Awdurdod Safonau Addysg Uwch) sydd ar gael o 2002/03 i 2006/07 fod gan y sector Addysg Uwch yng Nghymru gyfraddau cyfranogi uwch ar gyfer newydd-ddyfodiaid o:

- ysgolion a cholegau'r wladwriaeth;
- Ystadegau Gwladol – Dosbarthiad Economaidd-Gymdeithasol (NS-SEC) 4,5,6 a 7;
- cymdogaethau cyfranogiad isel;
- cefndiroedd aeddfed;
- y gymuned anabl.

Tabl 1 Cynnydd gan sefydliadau Cymru ar ddangosyddion ehangu mynediad ar gyfer newydd-ddyfodiaid israddedig						
	2002/03	**2002/03**	**2004/05**	**2005/06**	**2006/07**	**2007/08**
Canran o newydd-ddyfodiaid ifanc amser llawn yn gwneud eu gradd gyntaf sy'n dod o ysgolion y wladwriaeth						
Cymru	91.9	91.5	91.2	91.8	93.1	93.4
Lloegr	86.4	86.1	85.9	86.9	87.2	87.4
Yr Alban	87.5	85.9	86.3	85.7	86.6	86.4
Cyfanswm y DU	87.2	86.8	86.7	97.4	87.8	88.0
Canran o newydd-ddyfodiaid ifanc amser llawn yn gwneud eu gradd gyntaf o ddosbarthiadau NS-SEC 4, 5, 6 a 7						
Cymru	29.8	29.5	28.4	29.0	30.1	30.4
Lloegr	27.9	28.2	27.9	29.1	29.8	29.4
Yr Alban	28.0	26.9	26.7	27.3	25.9	26.3
Cyfanswm y DU	28.4	28.6	28.2	29.3	29.8	29.5
Canran o newydd-ddyfodiaid ifanc amser llawn yn gwneud eu gradd gyntaf o gymdogaethau cyfranogiad isel (*dull POLAR2 o 06/07 ymlaen)						
Cymru	16.0	16.7	16.8	16.4	10.2*	9.4*
Lloegr	12.5	13.3	13.1	13.5	9.6*	9.9*
Yr Alban	18.6	18.3	18.6	18.6	3.2*	n/a
Cyfanswm y DU	13.3	13.9	13.7	14.0	9.0*	9.7*
Canran o newydd-ddyfodiaid ifanc amser llawn yn gwneud eu gradd gyntaf sydd heb unrhyw Addysg Uwch flaenorol ac yn dod o gefndir o gyfranogiad isel						
Cymru	18.3	18.8	20.8	20.9	12.5*	ddim ar gael
Lloegr	13.8	13.2	14.9	15.2	11.4*	ddim ar gael
Yr Alban	11.4	14.4	12.8	16.2	2.5*	ddim ar gael
Cyfanswm y DU	13.8	14.5	14.9	15.6	10.6*	ddim ar gael
Canran o newydd-ddyfodiaid ifanc amser llawn yn gwneud eu gradd gyntaf sy'n derbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl						
Cymru	4.0	4.4	4.7	5.2	5.4	ddim ar gael
Lloegr	2.6	3.1	3.7	4.1	4.4	ddim ar gael
Yr Alban	2.2	2.5	3.1	3.4	3.6	ddim ar gael
Cyfanswm DU	2.6	3.1	3.6	4.1	4.4	ddim ar gael
Canran o newydd-ddyfodiaid sy'n byw yng Nghymru o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf						
HElau Cymru	11.8	11.5	11.6	11.5	12.0	ddim ar gael
Blaenoriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru: i gynyddu o 8.9% yn 2000/01 i 11.4% yn 2010/11						
Canran o newydd-ddyfodiaid sy'n byw yng Nghymru sydd ag elfen o gyfrwng y Gymraeg yn eu cwrs						
HElau Cymru	4.8	4.9	4.6	4.9	5.1	ddim ar gael
Blaenoriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru: i gynyddu o 5.3% yn 2000/01 i 7.0% yn 2010/11						

3.13 Er nad oedd wedi'i nodi ar y dechrau fel blaenoriaeth *Ymestyn yn Uwch*, yn 2006, soniodd y Gweinidog yng Nghynulliad Cymru ar y pryd ar gyfer Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, yn ei llythyr cylch gorchwyl i CCAUC, am yr angen i fynd i'r afael ag '*amgylchiadau pobl ifanc sy'n mynd i mewn i Addysg Uwch ar ôl bod mewn gofal'* . Ers yr adeg honno, cafodd sefydliadau argymhellion cryf gan CCAUC i ddilyn argymhellion Ymddiriedolaeth Frank Buttle a gyhoeddwyd yn *Going to University from Care,* ac i ennill Marc Ansawdd Ymddiriedolaeth Frank Buttle ar gyfer Pobl yn Gadael Gofal mewn Addysg Uwch. Mae ymateb y sector i'r argymhelliad hwn wedi bod yn gyflym, ac, wrth i ni ysgrifennu hwn, mae'r rhan fwyaf o Sefydliadau Addysg Uwch wedi ennill y marc ansawdd ac mae gweddill y Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru wedi cadarnhau eu bod yn bwriadu gwneud o fewn y flwyddyn academaidd nesaf (2009/10).

4. Cyd-destun ar gyfer ehangu mynediad yng Nghymru

4.1 Ffactorau economaidd-gymdeithasol y presennol a'r dyfodol yng Nghymru

4.10 Adroddodd gwefan Arsyllfa Dysgu a Sgiliau Cymru (Mawrth 2009) mai 2.96 miliwn yw poblogaeth bresennol Cymru a rhagwelodd gynnydd i 3.17 miliwn (gyda phoblogaeth o 1.9 miliwn yn gweithio) erbyn 2020. Amcangyfrifodd yr Arsyllfa fod 73% o'r gweithlu yng Nghymru wedi gadael addysg orfodol a bod gan tua 26% o'r boblogaeth gymhwyster ar lefel 4 neu'n uwch. Aeth tua 76% o ddisgyblion blwyddyn 11 ymlaen i addysg amser llawn yn 2006 ac roedd NEETS (ddim wedi'u cyflogi, mewn addysg, neu mewn hyfforddiant) yn ffurfio 10-12% o bobl 16-18 oed. Roedd tua un allan o bedair swydd yn y sector cyhoeddus ac roedd dros 50% o weithwyr wedi'u cyflogi yn y sectorau iechyd, addysg, gweinyddiaeth gyhoeddus, manwerthu a hamdden. Roedd gan Dde Ddwyrain a De Orllewin Cymru y crynodiad mwyaf o wardiau Cymunedau'n Gyntaf, ac o ran amrywiaeth o fesurau economaidd, Cymru oedd un o genhedloedd tlotaf yr UE.

4.11 Mae rhagamcaniadau poblogaeth yn awgrymu bod addysg uwch yn y DU yn wynebu dirywiad demograffig sylweddol o ran myfyrwyr 18-20 oed. Dangosodd adroddiad ym mis Rhagfyr 2008, o'r Sefydliad Polisi Addysg Uwch (HEPI) ddiffyg o 35,000 o fyfyrwyr 'o oedran traddodiadol yn y DU erbyn 2020. Roedd hyn yn cynrychioli gostyngiad o 4.6% yn y nifer o fyfyrwyr israddedig 'traddodiadol' amser llawn gyda rhagamcaniad ychydig yn uwch sef gostyngiad o 4.9% yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd yr adroddiad hefyd yn awgrymu cynnydd sylweddol o 12% (tua 500,000) o ran myfyrwyr israddedig amser llawn yn yr ystod oedran 25-29 yn y DU yn yr un cyfnod. Roedd adroddiad HEPI yn rhagweld cystadleuaeth lymach ar gyfer myfyrwyr iau o blith gwledydd y DU fel bod y dirywiad demograffig yn dwysáu yn y degawd nesaf.

4.12 Yn dilyn adolygiad Rees, yn 2005, ynglŷn â ffioedd hyblyg wedi'u gohirio ar gyfer myfyrwyr yng Nghymru rhoddwyd Cymru mewn lle ffafriol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy gyhoeddi o 2007/08 y câi myfyrwyr Cymru sy'n byw yng Nghymru grant ar gyfer ffioedd dysgu o £1890 i'w osod yn erbyn ffioedd o £3070. Yn ogystal â hyn, roedd bwrsariaeth o £305 ar gyfer unrhyw fyfyriwr a oedd yn derbyn grant dysgu Cynulliad Cymru o £2835. Wrth i ni ysgrifennu hwn, roedd tua thraean o fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru yn derbyn grant dysgu Cynulliad Cymru, fodd bynnag, mae newidiadau i gyllido myfyrwyr ar y gweill ar hyn o bryd a gall y rhain achosi gwelliant o ran ariannu i'r grŵp hwn (gweler paragraff 4.24).

4.13 Ers adroddiad HEPI, fodd bynnag, bu dirywiad sylweddol iawn yn yr economi ac mae'n ymddangos bod hyn yn cael effaith ar geisiadau sydd heb ei ffactoreiddio i mewn i ddadansoddiad HEPI. Ym mis Ionawr 2009, dangosodd data dros dro gan UCAC i'r dyddiad hwnnw godiad blynyddol o 7.8% yn y DU o ran ymgeiswyr israddedig amser llawn ar gyfer dechrau yn 2009 gyda'r codiadau mwyaf sylweddol mewn grwpiau oedran hŷn; 12.9% ar

gyfer pobl 21-24 oed; 12.6% ar gyfer y rhai 25 oed ac yn hŷn. Yn nhermau mynediad gwirioneddol i sefydliadau Addysg Uwch, dangosodd ystadegau a gynhyrchwyd gan UCAS ar gyfer 2008 gynnydd blynyddol o 10.4% o ran derbyniadau myfyrwyr israddedig amser llawn ledled y DU, eto gyda chynnydd sylweddol iawn o 21.7% ar gyfer y grŵp oedran 25 oed ac yn hŷn. Gan ystyried myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru yn unig, y codiad blynyddol yn 2008 ar gyfer pob derbyniad oedd 7.1% gyda chynnydd o 16.3% ar gyfer pobl 21-24 oed a chynnydd o 9.3% ar gyfer y grŵp oedran 25 ac yn hŷn.

4.2 Gwybodaeth gyd-destunol arall: polisïau a blaenoriaethau

4.20 Yn y blynyddoedd diweddar, bu nifer o adroddiadau dylanwadol ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru a ledled y DU. Nododd yr adolygiad sgiliau wedi'i ganolbwyntio ar Loegr gan Yr Arglwydd Leitch yn 2006 *Prosperity For All In The Global Economy - World Class Skills* fod 70% o weithlu 2020 y DU eisoes wedi'u cyflogi ac y byddai hyfforddiant ac addysg yn y gweithle yn dod yn bwysicach. Nododd yr adroddiad fod tua 29% o weithlu'r DU wedi'i haddysgu i o leiaf lefel 4 yn 2005, a bod rhaid i hyn godi i 40% erbyn 2020 er mwyn i'r DU aros yn gystadleuol mewn marchnad wedi'i globaleiddio. Roedd yr adroddiad yn cefnogi hyfforddiant galwedigaethol a arweinir yn ôl y galw gan gyflogwyr gydag ariannu ychwanegol yn mynd i gonsortia'r Cyngor Sgiliau Sector er mwyn cwrdd â'r galw hwn. Nid oedd yn darparu darlun calonogol iawn o ran ymgysylltu amser llawn traddodiadol ag addysg uwch. Dylid nodi na wnaeth yr adroddiad ystyried y dirywiad economaidd a ddilynodd a'i oblygiadau ar gyfer addysg uwch a chyflogwyr.

4.21 Yng Nghymru pwysleisiodd adroddiad 2007 gan Syr Adrian Webb: *Addewid a Chyflawniad: Yr Adolygiad Annibynnol o Genhadaeth a Phwrpas Addysg Bellach yng Nghymru yng nghyd-destun Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith* hefyd bwysigrwydd addysg alwedigaethol a llwybrau dilyniant i bobl 14-19 oed i mewn i addysg bellach. Nododd yr angen am fwy o ddarpariaeth dysgu sy'n seiliedig ar waith drwy gydweithio â chyflogwyr. Er syndod, yng ngoleuni gofyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru yn *Ymestyn yn Uwch*i dynnu rhwystrau rhwng Addysg Bellach ac Addysg Uwch ymaith, doedd dim llawer gan yr adroddiad i'w ddweud am symud trwy Addysg Bellach i Addysg Uwch.

4.22 Mewn perthynas â myfyrwyr rhan-amser, cynhyrchodd adolygiad Graham adroddiad yn 2006 ar *Gynlluniau Astudio Addysg Uwch Rhan-amser yng Nghymru* a oedd yn defnyddio rhai o gasgliadau adolygiad Rees yn 2005. Roedd adolygiad Graham yn argymell gwell ariannu o ddysgu rhan-amser drwy ddarparu bwrsariaethau ac ysgoloriaethau ar gyfer myfyrwyr rhan-amser, gan gynnwys cyflogeion mewn busnesau bach a chanolig.

4.23 Ym mis Gorffennaf 2008 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy gymryd i ystyriaeth adolygiadau Leitch a Webb, *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* a'i *Gynllun Gweithredu* perthynol a dilynwyd hyn gan ragor o gynigion polisi a osodwyd yn *Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru*. Roedd yr elfennau allweddol yn y dogfennau hyn yn cynnwys y canlynol:

- adolygu *Ymgeisio yn Uwch*;
- ceisio cyngor gan Gynghorau Sgiliau Sector ar sgiliau lefel uchel;
- ymestyn darpariaeth graddau sylfaenol;
- gofyn am waith ar y cyd drwy rwydweithiau pobl 14-19 oed rhwng Sefydliadau Addysg Uwch, Sefydliadau Addysg Bellach a darparwyr dysgu yn seiliedig ar waith i ddatblygu llwybrau dilyniant pellach ac ehangu cyfleoedd lleol;
- sefydlu pwyntiau mynedfa ac allanfa clir ar gyfer dysgwyr ar ôl 18 oed.

4.24 Yn 2008, sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer Addysg Uwch, â'r Athro Merfyn Jones yn gadeirydd, i adolygu dyfodol addysg uwch yng Nghymru. Cwblhawyd Cam 1 o waith y grŵp ar ariannu i fyfyrwyr yn hwyr yn 2008 a, fel canlyniad, ym mis Tachwedd 2008 soniodd Gweinidog Cynulliad Cymru dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau am y bwriad i ddileu yn raddol y grant ffioedd dysgu yn ei ffurf bresennol erbyn 2010 i holl fyfyrwyr Cymru sy'n astudio yng Nghymru. Cynigwyd hefyd y câi '*cyfran sylweddol'* o gymorth ariannol i fyfyrwyr ei hailgyfeirio i helpu teuluoedd incwm isel drwy fwy o argaeledd grantiau dysgu o 2010/11.

4.25 Yn y gorffennol agos, mae'r sector Addysg Uwch yng Nghymru hefyd wedi elwa ar ariannu sylweddol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) i gefnogi amcanion a gweithgareddau ehangu mynediad mewn ardaloedd dynodedig o amddifadedd cymdeithasol. Nododd ffynonellau o Lywodraeth Cynulliad Cymru y gallai hyn wedi bod tua £16miliwn am y cyfnod 2002-06. Fodd bynnag, mae'n anodd bod yn fwy manwl gywir gyda'r amcangyfrifon hyn gan fod Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru wedi derbyn arian gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn uniongyrchol ac mae'n bosibl y byddant hefyd wedi derbyn arian fel rhan o fidiau consortiwm ehangach a arweiniwyd gan sefydliadau eraill. Ar yr un pryd derbyniodd y sector Addysg Bellach tua £22 miliwn ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag ehangu mynediad. Mae cynaliadwyedd darpariaeth, gan gofio i'r ffynhonnell arian hon ddod i ben, wedi bod yn achos pryder difrifol ymhlith nifer o sefydliadau. Ar hyn o bryd, mae rhai sefydliadau wrthi'n ceisio cymorth drwy Gronfa Gydgyfeirio'r UE. Fodd bynnag, mae'r oedi yn yr amser trawsnewid rhwng y ffrydiau ariannu hyn wedi bod yn hynod o heriol. At hyn, mewn llythyr i CCAUC (17 Ebrill 2009) ni wnaeth y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau gynnwys ehangu mynediad fel un o'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer cymorth ariannol pellach gan Ewrop.

4.26 Dylid gweld yr uchod i gyd erbyn hyn yng nghyd-destun y sefyllfa economaidd feichus iawn a achoswyd gan gychwyn dirwasgiad yn 2008/09. Mae ariannu ar gyfer addysg uwch yng Nghymru, ac yn wir ledled y DU yn debygol o fod yn gyfyng gyda'r posibilrwydd o doriadau o ran ariannu wrth i wariant cyhoeddus gael ei leihau yn nhermau real, a mwy na thebyg yn nhermau gwirioneddol. Yn y llythyr cylch gorchwyl 2009-10 i CCAUC gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes a Sgiliau roedd y dyraniadau cyllidol yn ddarostyngedig i'r gosodiad cymhwyso canlynol:

‘Nodwch fod y ffigurau uchod i gyd yn rhai dros dro, ac y gallant newid yn ystod y flwyddyn…’

4.27 Yn ogystal â hyn roedd arwyddion o Lywodraeth San Steffan na fyddai tyfiant a ariennir gan y llywodraeth o ran niferoedd o fyfyrwyr yn Lloegr, er gwaethaf y cynnydd sylweddol mewn ymgeisiadau a ddisgwyliwyd wrth i’r dirwasgiad barhau. Bydd hyn yn golygu y bydd rhaid i Sefydliadau Addysg Uwch wneud penderfyniadau anodd iawn, ac mewn sefyllfa o wario cyfyngedig bydd rhaid i fuddsoddiad a chefnogaeth barhaus o ran ehangu mynediad fod ag achos busnes cadarn.

4.28 Yn olaf agwedd bwysig iawn ar addysg uwch yng Nghymru oedd y lefel gyffredinol uchel o foddhad cyffredinol myfyrwyr. Yn Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethaol 2008 (NSS) roedd pum Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru ymhlith y 50 sefydliad uchaf o ran boddhad cyffredinol myfyrwyr. Yn fwy diweddar, adroddodd arolwg y Times ar foddhad myfyrwyr addysg uwch, ym mis Ionawr 2009, fod pedwar sefydliad yng Nghymru ymhlith yr 20 uchaf o sefydliadau yn y DU. Yn gyffredinol roedd gan sefydliadau â chenhadaeth ehangu mynediad lai o foddhad myfyrwyr (ystod 75-80%) yn gryf o ran Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol, ond serch hynny, gwnaethant ddangos gwelliant o flwyddyn i flwyddyn o ran boddhad cyffredinol myfyrwyr. Gallai’r lefel uchel hon o foddhad myfyrwyr, sy’n dyst i’r ansawdd uchel o ddarpariaeth a chefnogaeth fod yn ‘bwynt gwerthu’ hanfodol o ran perswadio darpar fyfyrwyr i fynd i mewn i addysg uwch yng Nghymru.

5. Rôl CCAUC

5.10 Ers sefydlu *Ymgeisio'n Uwch* yn 2002, rhoddwyd y dasg i CCAUC gefnogi cyflawni blaenoriaethau'r Cynulliad ar gyfer ehangu mynediad. Cafodd y blaenoriaethau hyn eu gosod yn flynyddol yn llythyr cylch gorchwyl CCAUC ac mae CCAUC wedi ymdrin â'r blaenoriaethau drwy ddyrannu arian wedi'i gyfeirio ar gyfer ehangu mynediad. At hyn, mae e wedi penodi swyddogion i gefnogi gweithredu ehangu mynediad a pholisi anabledd, a than yn ddiweddar, roedd ganddo Bwyllgor Ehangu Mynediad ac Is-Grŵp Ymgynghorol Ymgyrraedd yn Ehangach. Yn ystod cyfnod yr adolygiad (2006-2009), mae CCAUC wedi cyhoeddi nifer o gylchlythyrau sy'n gysylltiedig ag ehangu mynediad (Atodiad 2). Roedd y cylchlythyrau hyn yn diwallu nifer o ddibenion. Yn gyntaf, gwnaethant ddarparu gwybodaeth ar amcanion ehangu mynediad a Phartneriaethau rhanbarthol, er enghraifft, ar ddyraniadau arian i sefydliadau a Phartneriaethau, hepgoriadau ffioedd, cynlluniau cyfrwng Cymraeg a chydraddoldeb. Yn ail, gwnaethant ofyn am ymgynghoriad ar amcanion ehangu mynediad a darparu adborth ar yr ymgynghoriad hwnnw. Yn olaf, gwnaethant ddarparu canllawiau ar adrodd a monitro gweithgareddau ehangu mynediad a gofyn am adroddiadau a chynlluniau gan sefydliadau a Phartneriaethau rhanbarthol ar ymagweddau at ehangu mynediad. Hefyd comisiynodd CCAUC yr adolygiad gan Arad Consulting yn 2006/07 a'r adolygiad cyfredol gan Yr Academi Addysg Uwch yn 2008/09.

5.11 Mae canolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu polisi ehangu mynediad yn rhoi tystiolaeth glir bod CCAUC wedi buddsoddi tipyn o adnoddau mewn cefnogi'r sector Addysg Uwch i gyflawni'r blaenoriaethau a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bu ymgynghori rheolaidd â'r sector am amcanion a dyraniadau ariannu ac, yn gyffredinol, mae CCAUC wedi bod yn drylwyr o ran hyrwyddo'r agenda ehangu mynediad yng Nghymru.

5.12 Un maes mawr lle mae angen rhagor o gynnydd yw wrth werthuso effaith gweithgareddau ehangu mynediad. Mae'r mater hwn wedi dod â heriau sylweddol i amcanion ehangu mynediad ledled y DU. Cydnabyddir yr angen am well asesiadau o effaith gan CCAUC a chan sefydliadau yn eu hymatebion i adroddiadau gwerthuso Arad. Byddwn yn dychwelyd at y mater hwn yn ddiweddarach yn yr adolygiad hwn. Un newid diweddar o ran rheolaeth CCAUC o ehangu mynediad oedd cyfuno'r Pwyllgor Ehangu Mynediad i'r Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd newydd o 2009. Bydd gan y pwyllgor newydd hwn ymagwedd sy'n ymdrin â materion ynglŷn â chylch oes cyfan myfyrwyr (e.e. dysgu ac addysgu, gwella ansawdd, cadw myfyrwyr, dilyniant ac ehangu mynediad) ac mae'n rhoi cyfle i roi a hyrwyddo ehangu mynediad o fewn cyd-destun ehangach ac i'w weld fel rhan o fusnes 'prif ffrwd'.

6. Ymagweddau sefydliadol at ehangu mynediad

6.1 Cwmpas, strwythur a chynnwys cyffredinol strategaethau ehangu mynediad

6.10 Roedd y strategaethau ehangu mynediad a gyflwynwyd gan sefydliadau yn ddogfennau cynhwysfawr ac yn aml yn eithaf hir, yn cynnwys manylion strategol a gweithredol. Derbyniodd canllawiau a ddarparwyd gan CCAUC ar gyflwyno strategaethau ar gyfer 2006/07 i 2008/09 nifer cyfyngedig o geisiadau am wybodaeth benodol (gweler Tabl 2) ac roedd hyn yn caniatáu i sefydliadau ddatblygu eu strategaethau yn ôl eu cenadaethau.

6.11 Yn gyffredinol, y gofyniad i ddarparu manylion ar dargedau tymor byr a chyfrifyddu ariannol oedd wedi achosi dogfennau strategol hir. Roedd sefydliadau'n cyflwyno strategaethau a oedd yn rhoi llawer o dudalennau i gyfrifyddu am ariannu ynghyd â thablau niferus a thargedau, gweithgareddau a data perthynol. Wrth feddwl am y canolbwynt hwn ar fanylion gweithredol, er bod y strategaethau yn amlwg yn werthfawr i'r staff a oedd yn ymwneud â gweithgareddau ehangu mynediad o ddydd i ddydd, efallai bydd eu hyd a'u lefel o fanylder yn atal uwch-reolwyr a staff nad ydynt yn arbenigwyr sy'n ceisio ymgysylltu ag uchelgeisiau strategol ehangu mynediad.

Tabl 2 – Pwyntiau allweddol o ganllawiau CCAUC ar gyfer strategaethau ehangu mynediad 2006/09- (Cylchlythyr 06/27HE)

- Darparu adroddiad cynnydd ar ddefnyddio arian yn 2005/06;
- Amlinellu perthynas ehangu mynediad â chenadaethau sefydliadol a strategaethau a chynlluniau sefydliadol eraill;
- Amlinellu ymagweddau at gyfle cyfartal mewn perthynas ag anabledd a hil;
- Dangos datblygiad gweithgareddau cyfrwng Cymraeg;
- Dangos ymagweddau at gadw myfyrwyr;
- Amlinellu cynllunio ariannol a defnydd arian ehangu mynediad;
- Ymdrin â blaenoriaethau *Ymgeisio yn Uwch*: ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf; siaradwyr y Gymraeg; cynnwys cymunedau croenddu a lleiafrifoedd ethnig eraill a phobl anabl;
- Darparu strategaethau tymor byr, canolig a hir a thargedau tymor byr i gadarnhau defnydd ariannu;
- Darparu gwybodaeth ar reoli, monitro a gwerthuso gweithgareddau ehangu mynediad;
- Ystyried argymhellion o adroddiad Ymddiriedolaeth Frank Buttle *Going to University from Care.*

6.12 Yn unol â'r paramedrau a restrir isod, roedd y rhan fwyaf o'r strategaethau'n ceisio dangos cydymffurfiad â'r polisi cenedlaethol ar gyfer addysg uwch ynghyd â siartio ymagwedd ddatblygiadol at ehangu mynediad. Nodwedd gyffredinol ar ymagwedd ddatblygiadol oedd cysylltu polisi ac arfer

ehangu mynediad ag agweddau allweddol ar genhadaeth a blaenoriaethau academaidd sefydliad. Roedd y fath flaenoriaethau'n cynnwys hyrwyddo pynciau STEM, dysgu galwedigaethol a dysgu gydol oes, datblygiadau dysgu rhan-amser a rhai eraill hyblyg, cyflogi graddedigion a darpariaeth ôl-raddedig, datblygiadau iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg a datblygiad y gweithlu o fewn cyd-destun rhanbarthol. Er i'r rhan fwyaf o strategaethau sefydliadol ddangos ymagwedd ddatblygiadol, roedd adrodd yn dueddol o ganolbwyntio ar gydymffurfio a oedd yn bennaf ar ffurf cyfrifyddu ar gyfer ariannu.

.

6.13 Roedd hyd y strategaethau ysgrifenedig yn ei gwneud yn anodd i'r rhai sydd y tu allan i'r sefydliad werthfawrogi'n llawn uchelgais a chyfeiriad strategol gwaith ehangu mynediad. Fel y dangosir yn ddiweddarach yn yr adolygiad hwn, ac mewn perthynas â'r pwynt hwn, awgrymodd diffyg canlyniadau mesuradwy hefyd nad yw sefydliadau wedi bod yn cael credyd llawn am eu buddsoddiad a'u llwyddiant.

6.14 O'i gymharu â'r ymagwedd yn Lloegr, dylid gweld bod y gofyniad cyson i sefydliadau yng Nghymru gyflwyno strategaethau ac adroddiadau blynyddol ynglŷn ag ehangu mynediad yn rhoi mantais i Gymru gan fod yr ymagwedd hon wedi rhoi cysondeb meddwl i sefydliadau a CCAUC. Fel canlyniad i ddatblygiadau diweddar yn Lloegr, mae'n ofynnol erbyn hyn i sefydliadau baratoi Asesiadau Strategol Ehangu Cyfranogiad (WPSAau) tair blynedd (http://www.hefce.ac.uk/pubs/hefce/2009/09_01/). Er y gellir gweld hyn fel ailgyflwyno strategaethau ehangu cyfranogiad (WP), mae gan yr WPSAau newydd nifer o nodweddion gwahanol, y gellir eu cymhwyso er budd y sector Addysg Uwch yng Nghymru.

6.15 Yn gyntaf, mae WPSAau yn gofyn am ganolbwynt strategol yn hytrach nag un gweithredol ar gyfer ehangu cyfranogiad o fewn sefydliadau. Y bwriad yw cael dogfen gymharol fyr sy'n lleoli ehangu cyfranogiad o fewn y cyd-destun sefydliadol, yn dangos ymrwymiad y sefydliad i ehangu cyfranogiad, gosod ei nodau ac amcanion allweddol, targedau a cherrig milltir priodol ar gyfer y dyfodol a nodi buddsoddiad mewn ehangu cyfranogiad. At hyn, dylai sefydliadau atodi eu cytundeb mynediad, polisi derbyniadau lefel uchel a gwybodaeth gefnogol arall. Mae hyn yn debygol o gynnwys dogfennau polisi allweddol a gallai gynnwys cynllun gweithredol ar gyfer y rhai sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â darparu neu reoli gweithgareddau ehangu cyfranogiad o fewn y sefydliad.

6.16 Yn ail, bwriedir i WPSAau integreiddio gwaith datblygiadol, gweithdrefnau adrodd a swyddogaethau cysylltiadau cyhoeddus er mwyn gwella hyrwyddo'r gwaith ar ehangu cyfranogiad mae sefydliadau'n ymgymryd ag ef. Dylai'r ymagwedd ddatblygiadol annog sefydliadau i ddatgelu realiti eu profiadau mewn perthynas ag ehangu cyfranogiad a hwyluso deialog rhwng y sefydliad a HEFCE (Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr). Gellir gweld hyn fel ymagwedd gadarnhaol oherwydd byddai llawer o sefydliadau'n croesawu adborth penodol am eu hymagwedd at ehangu cyfranogiad. Fodd bynnag, gallai fod tyndra rhwng y deialog datblygiadol a'r swyddogaeth ymatebolrwydd

sy'n ei wneud yn ofynnol i sefydliadau ddangos eu bod yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau.

6.17 Yn drydydd, mae WPSAau yn seiliedig ar ymagwedd cylch oes myfyrwyr. Mae'r WPSAau yn ymgorffori cytundebau mynediad a chymorth ariannol i fyfyrwyr, polisïau derbyniadau a mynediad teg, dysgu cynhwysol, addysgu ac asesiad, cadw myfyrwyr a llwyddiant. Mae hyn yn ei dro yn gofyn am ymagwedd sefydliad cyfan at ehangu cyfranogiad, gan gysylltu polisïau ac arferion sefydliadol, a hyrwyddo diwylliant cynhwysol. Anogir sefydliadau i atodi polisïau a chynlluniau perthynol i'w WPSA i ddangos yr ymagwedd cylch oes hon. Nid oes, fodd bynnag, unrhyw angen penodol i fyfyrwyr ymgysylltu â datblygiad polisi ehangu cyfranogiad.

6.18 Ar wahân i gytundebau mynediad, mae llawer o'r agweddau a restrir uchod yn bodoli eisoes yn strategaethau ehangu mynediad sefydliadau. Pe bai'n bosibl dod â'r holl agweddau hyn at ei gilydd hefyd, mewn ffordd integredig ac o fewn datganiad strategol byr gellid gwella'n sylweddol defnydd posibl strategaethau ehangu mynediad Cymru.

6.2 Cysylltiadau â strategaethau sefydliadol a nodau strategol sefydliadol eraill.

6.20 Gwnaeth y strategaethau i gyd yng Nghymru sylwadau ar gysylltiadau â strategaethau sefydliadol eraill. Yn benodol cafwyd cyfeiriadau at gydlyniad â chenhadaeth gyffredinol a chynlluniau strategol sefydliadau a hefyd â'r strategaethau dysgu ac addysgu. Ar gyfer pum sefydliad sy'n gwasanaethu cymunedau mawr trefol ag ardaloedd heb gynrychiolaeth ddigonol yn Addysg Uwch, roedd ehangu mynediad yn elfen allweddol o'r genhadaeth sefydliadol. Ar gyfer sefydliadau sydd â phortffolio ymchwil cryfach roedd fel arfer cysylltiad â strategaeth y Drydedd Genhadaeth (ee ymchwil cymhwysol, arloesedd, menter) a chanolbwynt ar ehangu mynediad at bynciau STEM ac astudiaethau ôl-radd. Roedd y cysylltiad mawr arall y cyfeiriwyd ato yn y rhan fwyaf o strategaethau oedd â pholisïau neu strategaethau cadw. Amlygodd un sefydliad y cysylltiad hwn drwy gyflwyno *Strategaeth Ehangu Mynediad a* Chadw, er gallai'r elfen o gadw fod wedi cael ei datblygu'n llawnach.

6.3 *Arweinyddiaeth, mewnosod a newid diwylliannol*

6.30 Roedd strategaethau ehangu mynediad yng Nghymru'n dangos bod arweinyddiaeth ar gyfer ehangu mynediad yn gyffredinol yn gyfrifoldeb i aelod o'r uwch dîm rheoli ac roedd hyn yn cyd-fynd â'r proffil uchel a roddwyd i ehangu mynediad mewn cenadaethau sefydliadol a chynlluniau strategol. Yn y rhan fwyaf o sefydliadau, roedd yr uwch reolwr fel arfer yn Ddirprwy Is-Ganghellor, er mewn dau sefydliad roedd yr uwch reolwr yn Bennaeth uned neu adran gyda rôl fawr mewn ehangu mynediad. Darparwyd rhagor o arweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau drwy grwpiau sefydliadau a oedd â theitlau megis pwyllgor ehangu mynediad/cyfranogiad, grŵp gorchwyl ehangu cyfranogiad a chynhwysiant cymdeithasol, grŵp cymorth ar gyfer anabledd neu'r grŵp datblygu dysgu. Cafodd gweithrediad y strategaeth ehangu mynediad, ac, mewn rhai achosion, y gwaith Partneriaeth Ymgyrraedd yn

Ehangach ei gydlynu'n aml drwy swyddfa, uned neu adran weinyddol a chafodd swyddogion eu penodi drwy ddefnyddio arian ehangu mynediad/Ymgyrraedd yn Ehangach ar y cyd neu dim ond arian Ymgyrraedd yn Ehangach. Fel arfer roedd gan y timau craidd yn yr unedau hyn staff pwrpasol ar gyfer naill ai'r cynlluniau ehangu mynediad mewnol neu ar gyfer rolau cydlynu i Bartneriaethau rhanbarthol. Mewn rhai sefydliadau, roedd y staff a benodwyd i rolau anabledd hefyd yn gysylltiedig â'r unedau gweinyddol hyn.

6.31 Yn rhaglen yr Academi Addysg Uwch i ddatblygu a mewnosod polisi ac arfer cynhwysol ledled y DU, dywedwyd bod ymrwymiad ac ymgysylltiad uwch reolwyr yn arwyddocaol o ran achosi'r newid diwylliannol a oedd yn ofynnol gan agendâu cydraddoldeb ac amrywiaeth ac ehangu mynediad. Roedd yn amlwg bod gan uwch-reolwyr rôl arwain yn yr agenda, a ddangoswyd drwy sicrhau bod y canlynol yn bodoli:

- gweledigaeth a rennir ar gyfer cydraddoldeb a chyfranogiad ledled y sefydliad;
- digon o adnoddau ar gael;
- cysylltiad strategol rhwng gwahanol swyddogaethau a gwasanaethau sefydliadol;
- dathlu a gwobrwyo llwyddiant yn y maes hwn;
- cymeradwyo newid strategol;
- 'prynu i mewn' gan staff eraill (gan gynnwys Bwrdd y Llywodraethwyr).

Mewn rhai sefydliadau, gwelwyd uwch staff fel eiriolwyr a hyrwyddwyr ar gyfer y newidiadau a gafodd eu symud ymlaen a gwnaethant ddarparu model o ymddygiad ar gyfer ymagweddau at ehangu mynediad.

6.32 Er na ddywedwyd yn eglur yn y rhan fwyaf o'r strategaethau, roedd ehangu mynediad yn cyfrannu at waith y sefydliadau ar gefnogi myfyrwyr o ystod o gefndiroedd ac ag anghenion dysgu amrywiol iawn. Ymddangoswyd fod y broses hon o newid diwylliannol ar y gweill mewn llawer o sefydliadau. Y brif ffordd o gyflawni hyn mewn rhai sefydliadau oedd trwy sicrhau bod canolfan a oedd â'r diben o ehangu mynediad yn cefnogi a hyrwyddo gweithgareddau. Roedd y fath ganolfannau'n darparu: cynllunio a chydlynu ledled y sefydliad; rheoli a dosbarthu arian; a datblygiad hyfforddiant a staff. Ar gyfer nifer o sefydliadau, gwelwyd yr un olaf yn ffactor allweddol o ran cyflawni newid diwylliannol ac roedd un sefydliad wedi creu cynllun ar gyfer datblygiad staff a dysgu a oedd yn hygyrch ac yn amlwg, er mwyn rhoi gwybod i'w staff am faterion sy'n gysylltiedig ag ehangu mynediad. Roedd hyn yn cynnwys, er enghraifft, datblygiad staff a oedd yn darparu canllawiau ar ymagweddau addysgu a dysgu penodol i'w defnyddio gyda rhaglenni astudio a leolir yn y gymuned ac a ganolbwyntir ar fynediad.

6.33 Tra bod strategaethau ehangu mynediad yn cyfeirio'n aml at unedau gweinyddol canolog (ee cofrestrfa) gan ddatganoli ariannu canolog i gefnogi gweithgareddau mewn adrannau academaidd, roedd yn ymddangos yn anarferol, i sefydliadau beri i adran academaidd gymryd rôl arwain. Roedd dim ond un sefydliad wedi colli'r rhan fwyaf o'i waith ehangu mynediad a

leolwyd o fewn adran addysg barhaus academaidd. Yn gyffredinol nid oedd strategaethau'n rhoi arwydd clir am a gafodd rheolaeth a chyfrifoldeb ar gyfer gweithgareddau ehangu mynediad eu datganoli i unedau academaidd ac i ba raddau y gwnaed hynny, er bod sôn yn aml am weithgareddau megis mentora a thiwtora personol i fyfyrwyr o fewn adrannau.

6.4 Grwpiau targed

6.40 Roedd grwpiau targed ar gyfer ehangu mynediad a nodwyd gan sefydliadau yn cydfynd â pholisi Llywodraeth Cynulliad Cymru: wardiau Cymunedau'n Gyntaf, pobl ifanc ac oedolion, grwpiau croenddu a lleiafrifoedd ethnig eraill, pobl anabl, siaradwyr y Gymraeg, ac yn fwy diweddar, er nad ydynt yn *grŵp targed Ymgeisio'n Uwch,* pobl ifanc o dan ofal. Daeth y strategaethau ehangu mynediad cyn adroddiadau Webb a *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* felly, yn gyffredinol, roedd ond ychydig o sôn am neges allweddol o'r adroddiadau hynny: dysgu galwedigaethol ar gyfer oedolion sy'n gweithio. Fodd bynnag, wrth ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach yn y dyfodol, dylid nodi bod sefydlu Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru yn darparu strwythur er mwyn i sefydliadau Addysg Uwch gynnig cyfleoedd dysgu hyblyg sy'n seiliedig ar gredydau.

6.41 Wrth ystyried cenadaethau a dibenion sefydliadol, roedd strategaethau ehangu mynediad yn aml yn amlygu materion ehangu mynediad sy'n gysylltiedig â'r grwpiau allweddol a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Er enghraifft, gwelodd tri sefydliad mewn ardaloedd Cymru lle siaredir Cymraeg yn bennaf, rôl sylweddol i'r iaith Gymraeg mewn ehangu mynediad. Eto, ar gyfer pum sefydliad Addysg Uwch mewn ardaloedd mwy trefol roedd mwy o bwyslais ar yr anghenion ehangu mynediad o fewn y cymunedau lleol mewn ardaloedd amddifadus. Nodwedd gweithio gyda'r gymuned oedd yr ymagwedd ar gyfer pob oedran a oedd gan sefydliadau sy'n ymgysylltu ag, er enghraifft, ysgolion a disgyblion, oedolion a theuluoedd. Ceir enghreifftiau lle y cefnogir gwaith sefydliad Addysg Uwch a leolir yn y gymuned gan y fenter Ymgyrraedd yn Ehangach (gweler adran 9 i gael mwy o fanylion). Er enghraifft, penododd un Bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach gydlynydd ar gyfer dysgu teuluol ac ymgynghorydd ar gyfer pob oedran. Roedd mentrau eraill yn cynnwys clwb celf a leolir yn y gymuned i oedolion, cefnogi Wythnos Dysgu i Oedolion (sy'n rhan o raglen ledled y DU Y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion (NIACE) a chyrsiau blasu prifysgol a ganolbwyntir ar y teulu. Yn y cyswllt olaf hwn roedd sefydliadau'n gweithio i gyflawni dyhead Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo astudio rhwng y cenedlaethau fel ffordd o adeiladau galluedd mewn cymunedau.

6.42 Wrth i ni ysgrifennu hwn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sefydlu Dysgu Oedolion yn y Gymuned (<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills> - chwiliwch drwy ddefnyddio Dysgu Oedolion yn y Gymuned). Bydd gan y partneriaethau rhanbarthol ACL gynrychiolaeth gan awdurdodau lleol, sefydliadau Addysg Bellach a sefydliadau gwirfoddol ymhlith rhai eraill. Bydd y rhwydwaith hwn yn cynnig cyfle i sefydliadau Addysg Uwch, naill ai'n unigol neu drwy'r Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach, ddatblygu rhagor o gysylltiadau gydag oedolion

sy'n dysgu ac integreiddio'r ddarpariaeth bresennol. Yn y cyd-destun hwn, bydd profiad hir y Brifysgol Agored yng Nghymru yn werthfawr ac mae manteision sylweddol dros ehangu mynediad i bob sefydliad gael cysylltiadau agosach â'r Brifysgol Agored yng Nghymru. Yn ogystal bydd yr agenda hwn yn gofyn am weithio'n agosach gyda Niace Dysgu Cymru (http://niace.rcthosting.com/ên/default.asp), cynghorau sgiliau sector a sefydliadau ac asiantaethau cyflogwyr eraill.

6.43 Gwnaeth pob strategaeth ehangu mynediad restru grwpiau lleiafrifoedd ethnig fel targed ond yn anaml gwnaethant roi unrhyw fanylion penodol ar yr ystod a'r nifer o wahanol leiafrifoedd ethnig maent yn gweithio gyda hwy neu'r gofyniad a'r adnoddau sydd eu hangen i roi gwahanol ymagweddau i ymgysylltu â'r cymunedau hyn. Roedd ychydig o strategaethau'n cyfeirio at ddarpariaeth ar gyfer ffoaduriaid, ceiswyr lloches, gweithwyr ymfudol a sipsiwn Romani. Mae'n ymddangos mai'r rhagdybiaeth oedd y byddai lleiafrifoedd ethnig yn ffurfio cyfran o gyfranogwyr ar raglenni ehangu mynediad ac yn aml dywedwyd bod ymrwymiad i sicrhau bod y gyfran hon yn adlewyrchu'r ffracsiwn o'r boblogaeth ranbarthol a ffurfiwyd o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Daeth rhai strategaethau ynghyd â data oedd yn dangos yn gyffredinol bod y sefydliadau'n mynd ychydig yn uwch na'u targedau ar gyfer myfyrwyr BME (pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig). Fodd bynnag, nid oedd y strategaethau'n cynnig ymchwilio'n ddwfn i ddata ar fyfyrwyr o leiafrifoedd ethnig i weld a oedd rhai grwpiau lleiafrifol â chynrychiolaeth ormodol neu heb gynrychiolaeth ddigonol mewn sefydliadau Addysg Uwch neu feysydd pwnc. At hyn, roedd rhai o'r strategaethau ehangu mynediad yn dangos bod dogfennaeth arall ar hil a chydraddoldeb a oedd yn tanategu eu gwaith ar ehangu mynediad yn y maes hwn. Yn nhermau niferoedd cyffredinol na gwahaniaethir oddi wrth bobl ddu a grwpiau lleiafrifoedd ethnig, mae'n ymddangos bod sefydliadau'n cwrdd â'u hymrwymiad i recriwtio myfyrwyr BME i lefel sy'n mynd yn uwch na'r gyfran o ddinasyddion BME yng Nghymru.

6.44 Gwnaeth ymchwil a gynhaliwyd gan yr Academi a chan yr Undeb Herio Cydraddoldeb (ECU) ar gyfer yr Adran Prifysgolion, Arloesedd a Sgiliau (DIUS) (<http://www.heacademy.ac.uk/ourwork/institutions/ethnicity>) ganolbwyntio ar y broblem fwy heriol o lwyddiant gwahaniaethol o ran graddau gan fyfyrwyr BME yn Lloegr. Yng ngoleuni'r ymchwil hwn byddai'n briodol i sefydliadau yng Nghymru ystyried nid yn unig y mynediad at addysg uwch ond hefyd monitro cadw a llwyddiant y myfyrwyr hynny fesul gwahanol grwpiau BME. Yng Nghymru, fodd bynnag, mae'n bosibl y ceir materion sy'n gysylltiedig â diogelu data gan ystyried y niferoedd bach o fyfyrwyr BME sy'n astudio yng Nghymru.

6.45 O ran y grwpiau targed o fewn y boblogaeth myfyrwyr anabl, roedd y strategaethau ehangu mynediad yn fwy eglur. Yn aml cafwyd arwydd o'r ymagweddau at ddarparu cefnogaeth ar gyfer anabledd corfforol, anabledd meddyliol a dyslecsia. Ceir dadansoddiad llawnach o ymagweddau sefydliadol at anabledd yn adran 7.

6.46 Yn Lloegr, ceir ymagwedd nad yw'n rhagnodol at ddiffinio ehangu cyfranogiad, sef ystyried amrywiaeth sefydliadol a phenodolrwydd

cenadaethau. Mae CCAULl wedi darparu canllawiau ar dargedu (cylchlythyr CCAULl 2007/12), a thra ei bod yn ofynnol i bartneriaethau Anelu'n Uwch ddefnyddio'r rhain, anogir sefydliadau i'w defnyddio hefyd. Mae gwaith gan yr Academi Addysg Uwch gyda staff sefydliadau yn Lloegr yn awgrymu bod angen o bosibl am fwy o eglurder ynglŷn â chwmpas ehangu cyfranogiad o fewn pob sefydliad a'r goblygiadau am bolisïau, arferion a diwylliant sefydliadau.

6.5 Cadw myfyrwyr a chefnogaeth sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr

6.50 Yng Nghymru, dangosodd strategaethau ehangu mynediad fod sefydliadau Addysg Uwch, ni waeth am gyfraddau sy'n peidio â pharhau, yn gweithio i wella cefnogaeth i fyfyrwyr a chadw myfyrwyr. Ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn draddodiadol, roedd yr holl sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru'n symud tuag at ddarparu cymorth hydredol cryf yn seiliedig ar anghenion y myfyrwyr drwy gydol eu hamser yn addysg uwch. Roedd Sefydliadau Addysg Uwch yn gweld bod yr wythnosau cynnar mewn sefydliad yn hanfodol ar gyfer cadw myfyrwyr, yn enwedig y rhai sy'n dod o gefndiroedd amrywiol. Mewn un sefydliad roedd cynllun cadw myfyrwyr a oedd yn defnyddio mentoriaid profiadol i fyfyrwyr wedi bod mor llwyddiannus ei fod wedi'i ymestyn i ymdrin â'r holl fyfyrwyr yn y sefydliad. Mewn sefydliad arall, roedd ei ganolfan ar gyfer dysgu gydol oes yn datblygu continwwm o gymorth a oedd yn ymestyn o ddarpariaeth allgymorth trwy fynediad ac ymsefydlu hyd at raddio. Hefyd roedd gan y sefydliad ganolfannau cynghori cyfadrannol a oedd yn darparu rhywfaint o'r cymorth. Canlyniad ymchwil gan gymrawd addysgu mewn sesfydliad arall i raglen e-ddysgu sylfaenol oedd â chyfradd cadw myfyrwyr gwael oedd gwelliant dramatig pan fabwysiadwyd ymagwedd wedi'i phersonoli at yr amgylchedd dysgu rhithwir. Hefyd gwelodd nifer o sefydliadau eraill ddatblygiad dysgu wedi'i bersonoli yn hanfodol i lwyddiant rhaglenni sy'n dibynnu'n helaeth ar ddysgu rhithwir neu ddysgu o bell. Roedd mentrau eraill sy'n gysylltiedig â chadw myfyrwyr ac a amlygir yn y strategaethau ehangu mynediad yn cynnwys:

- cymorth drwy wefan ar gyfer myfyrwyr sy'n dod o gefndiroedd nad ydynt yn draddodiadol;
- monitro ac olrhain y myfyrwyr y gwelir eu bod mewn perygl;
- cyflwyno ystafell ddyddiadur fel rhan o'r rhaglen ymsefydlu;
- mentora wyneb yn wyneb ar gyfer myfyrwyr sy'n dod i mewn trwy lwybrau ehangu mynediad;
- penodi ymgynghorwyr ar gadw myfyrwyr;
- cyflwyno cynllun 'bydi' ar gyfer glasfyfyrwyr;
- adolygiad o gymorth a ddarperir drwy gynllun tiwtora personol.

6.51 Yn Lloegr, cafodd y term 'ehangu cyfranogiad' (WP) ei ddefnyddio fel arfer i olygu ymagwedd ddeuol ehangu mynediad a hyrwyddo llwyddiant myfyrwyr mewn addysg uwch. Mae defnydd y term 'ehangu mynediad' yng Nghymru hefyd yn adlewyrchu'r syniad ehangach hwn o'r cam cyn Addysg Uwch o godi dyheadau a sgiliau addysgol, ynghyd â chymorth i alluogi myfyrwyr sydd wedi ymrestru i lwyddo mewn Addysg Uwch a'r tu hwnt iddi. Fodd bynnag, mae'n ddiddorol nodi bod y strategaethau ehangu mynediad

yng Nghymru â thueddiad cryfach tuag at fynediad cyn dechrau yn hytrach na chylch gorchwyl ehangach sy'n cwmpasu syniadau ehangach am gyfranogiad a llwyddiant myfyrwyr a dilyniant graddedigion.

6.52 Dangosir canolbwynt yn Lloegr ar gadw myfyrwyr a'u llwyddiant gan ddyraniad CCAULl o ariannu craidd ar gyfer cadw myfyrwyr. Ceir datblygiad diddorol, sy'n cyd-fynd â'r cysyniad o gylch oes myfyrwyr, sef ni ddyrennir arian bellach ar gyfer cadw myfyrwyr fel rhan o'r premiwm ehangu cyfranogiad, ond yn hytrach o fewn grant addysgu cyffredinol sefydliad. Mae hyn yn symud y pwyslais i ffwrdd o'r syniad o gyfraddau gwael o ran cadw myfyrwyr fel problem i ehangu cyfranogiad yn unig, ac mae'n cydnabod canologrwydd y profiad dysgu o ran gwella cyfraddau cadw myfyrwyr. Gwelir y tueddiad i gysylltu ehangu mynediad a chadw myfyrwyr a'u llwyddiant yn natblygiad Asesiadau Strategol Ehangu Cyfranogiad (WPSA), er ni ofynnir i'r sefydliadau fynd i'r afael â llwyddiant gwahaniaethol rhwng grwpiau cydraddoldeb. Yn ogystal â hyn, mae CCAULl a Sefydliad Paul Hamlyn wedi ariannu rhaglen £1miliwn ar y cyd i ymchwilio i strategaethau ac ymyriadau i wella cadw a llwyddiant myfyrwyr a'u gwerthuso (gweler <http://www.actiononaccess.org/index.php?p=11_3>).

6.53 Efallai bydd yn fuddiol i sefydliadau yng Nghymru ystyried dadansoddi data cydraddoldeb, dilyniant a llwyddiant sefydliadol a defnyddio'r canlyniadau dadansoddi data i dargedu gwaith gyda grwpiau o fyfyrwyr sydd â chyfraddau is na'r disgwyl o ran cadw, dilyniant a llwyddiant.

6.6 Cyfrwng Cymraeg

6.60 Roedd cynyddu a gwella'r nifer o fyfyrwyr sy'n ymgymryd ag astudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn darged ehangu mynediad *Ymgeisio'n Uwch*: oherwydd bod myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch. Roedd data ar y targed *Ymgeisio'n Uwch* ar gyfer myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn dangos cynnydd canran fach o ran siaradwyr y Gymraeg (9.4% yn 2006/07) ac roedd y ganran o fyfyrwyr Addysg Uwch sy'n byw yng Nghymru ac yn gwneud elfen o'u cwrs yn y Gymraeg yn aros rhwng 4.6% a 5.1% rhwng 2001/02 a 2006/07 (gweler hefyd Tabl 1).

6.61 Er mwyn cydnabod y targedau uchelgeisiol a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r diffyg cymharol o ran strategaeth gynllunio Cymru gyfan ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y gorffennol, mae Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru wedi sefydlu strategaeth a fframwaith cenedlaethol ar gyfer newid sylweddol o ran cynnydd. Ers 2007, cafodd hyn ei arwain gan Grŵp Sector Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg. Cafodd gwaith ei symud ymlaen gan ystod o is-grwpiau a phaneli pwnc ar draws y sector a'i hwyluso gan Ganolfan a berchnogir gan y sector ar gyfer Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg (CWMHE). Mae pob Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru, yn cwmpasu cyfranogwyr traddodiadol darpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r rhai lle mae'r lefel o ddarpariaeth wedi bod yn is hyd yn hyn, yn cymryd rhan yn y gwaith hwn. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn ffurfio

Strategaeth Addysg Iaith Gymraeg newydd ac wedi ystyried sefydlu Coleg Ffederal.

6.62 O fewn nifer o sefydliadau roedd unedau a oedd yn darparu gwasanaethau i gefnogi dysgu ac addysgu cyfrwng Gymraeg. Mae mater allweddol ar gyfer ehangu astudiaethau cyfrwng Cymraeg wedi cynnwys datblygiad staff gan ddefnyddio, yn hanesyddol, nifer annigonol o academyddion dwyieithog. Aed i'r afael â hyn drwy'r cynlluniau ysgoloriaeth ymchwil a chymrodoriaeth addysgu sy'n cael eu gweinyddu gan y CWMHE. Gwaith arall a gafodd ei symud ymlaen oedd gwaith marchnata a hyrwyddo a oedd yn canolbwyntio ar y brand 'Mantais' a ymgymerwyd, lle bo'n briodol, ar y cyd â Phartneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach, a mwy o fuddsoddi mewn ariannu prosiectau i ddatblygu mwy o adnoddau ar gyfer myfyrwyr.

Mae cysylltiadau clir i'w gwneud a'u datblygu ymhellach rhwng codi gorwelion a chefnogi siaradwyr Cymraeg fel rhan o Ymgyrraedd yn Ehangach a gweithgareddau ehangu mynediad ac ymdrechion ehangach y sector i gynyddu'r galw am addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg, ac i gynyddu cyfranogiad ohoni.

7. Ymagweddau sefydliadol at anabledd, cydraddoldeb ac amrywiaeth

7.1 Gofynion strategol

7.10 Yn draddodiadol, gwelwyd myfyrwyr y nodwyd eu bod yn anabl neu'n dod o gymuned ethnig benodol (e.e. du a lleiafrifoedd ethnig), o fewn yr agenda ehangach, fel grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Ers adeg ysgrifennu strategaethau ehangu mynediad mae'r cyd-destun polisi wedi newid yn sylweddol oherwydd rhoi dyletswydd ar sefydliadau i hyrwyddo cydraddoldeb anabledd, hiliol a rhywiol a chyhoeddi cynllun cydraddoldeb ar gyfer pob un o'r meysydd hyn. Rhagwelwyd y byddai rhagor o newidiadau yn sgil y Ddeddf Cydraddoldeb a gyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin ar 24 Ebrill 2009, gyda chynnig y byddai'n ofynnol i sefydliadau ymateb i un ddyletswydd yn ymdrin â nifer o egwyddorion a ddiogelir ac y byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i'r modd y gallai eu penderfyniadau helpu i leihau anghydraddolebau'n ymwneud â statws economaidd-gymdeithasol.

7.11 Soniodd cylchlythyr CCAUC 2006 (W06/05HE) ar gyflwyno strategaethau ehangu mynediad am ddarparu cyfle cyfartal i fyfyrwyr anabl a gofynnwyd i sefydliadau gyflwyno eu Cynlluniau Datblygu Anabledd (DDP) ynghyd â'r strategaeth ehangu mynediad. Cyfrifoldeb y sefydliadau unigol oedd penderfynu a ddylid integreiddio eu cynlluniau anabledd gyda'r strategaeth ehangu mynediad neu i ddarparu cynllun datblygu anabledd gwahanol. O ganlyniad i hyn, ceir cryn amrywiaeth o ran cynnwys datblygu strategaethau'n ymwneud ag anabledd o fewn strategaethau ehangu mynediad. Yn achos un sefydliad, roedd anabledd yn nodwedd amlwg, bron yn drech na rhai eraill, yn y strategaeth ehangu mynediad. Yn achos cwpl o sefydliadau eraill, o'r braidd y bu sôn am anabledd a chymerodd y tîm adolygu Academi fod hyn yn digwydd oherwydd bod dogfen polisi arall yn ymdrin ag ef. Rhywle rhwng y ddwy enghraifft hyn oedd ymdriniaeth strategaethau'r wyth sefydliad arall ag anabledd. Nid yw'n achos syndod bod elfen gref o gydymffurfio ynghylch yr ymagwedd at anabledd gyda chyfeiriad cyffredin at ofynion deddfwriaethol megis SENDA (Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001) a'r DDA (Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005). Un o nodweddion strategaethau ehangu mynediad oedd defnyddio iaith nad oedd yn llwyr adlewyrchu'r model cynhwysedd cymdeithasol, er enghraifft, drwy gyfeirio at anghenion myfyrwyr anabl yn hytrach nag at eu hawl i gael eu trin yn yr un modd â myfyrwyr eraill.

7.12 Oherwydd y dogfennau strategol oedd ar gael i'w hadolygu, nid oedd yn bosibl mesur i ba raddau roedd sefydliadau addysg bellach am sicrhau newid o ran diwylliant trefniadol yn ymwneud â chydraddoldeb ac yn cynnwys hawliadau myfyrwyr anabl. Fodd bynnag, ar lefel fwy gweithredol, mae strategaethau'n dangos yn glir darpariaeth gwasanaethau i fyfyrwyr anabl a defnyddio Premiwm Myfyrwyr Anabl, ac yn gyffredinol roedd sôn am unedau a grwpiau cefnogi anabledd o fewn y sefydliadau. Ymhlith y datblygiadau nodadwy eraill y mae ehangu cefnogaeth canolfan arbenigol un sefydliad ar gyfer myfyrwyr dall i sefydliadau eraill. Fodd bynnag, gellid bod wedi gwella'r strategaethau drwy gymryd y cyfle i amlinellu gweledigaeth strategol o

hyrwyddo newid diwylliannol ar draws sefydliad yn yr ymagwedd at gynnal myfyrwyr anabl. Mae'n bosibl bod cynllunio ar gyfer newid diwylliannol wedi'i gynnwys mewn dogfennau polisi eraill megis Cynlluniau Datblygu Anabledd a Chynlluniau Cydraddoldeb Anabledd (DES), fodd bynnag, o'r braidd, os o gwbl, y mae'r strategaethau ehangu mynediad yn manylu ar gysylltiadau â Chynllun Datblygu Anabledd a Chynllun Cydraddoldeb Anabledd sefydliad.

7.13 Heb amheuaeth, mae gwir gyfle i fynd i'r afael ag anabledd a chydraddoldebau eraill ochr yn ochr ag ehangu mynediad gan fod yr agendâu hyn yn atgyfnerthu ei gilydd ac wedi'u cydgysylltu. Ar gyfer y ddau y mae angen ymagwedd systematig a chyfannol tuag at gynhwysedd cymdeithasol. Efallai y byddai'n fwy buddiol i sefydliadau Addysg Uwch a myfyrwyr pe byddai'r ddau faes hyn yn cael eu trin ar wahân.

7.14 Mae gan sefydliadau gyfrifoldeb o dan y ddeddfwriaeth gydraddoldeb i hyrwyddo cydraddoldeb, gwahardd gwahaniaethu ac aflonyddu, a sicrhau cyfranogiad llawn a chyfartal o ran pob grŵp cydraddoldeb mewn dysgu ac mewn bywyd cyhoeddus. Mae hefyd yn ofynnol y gwneir addasiadau ar gyfer pobl anabl er mwyn galluogi hyn i ddigwydd. Egwyddor tanategol o'r dyletswyddau yw canolbwynt ar newid yr agweddau, systemau a'r arferion a allai fod yn wahaniaethol, creu rhwystrau, a/neu atal cyfranogiad llawn o ran pob grŵp cydraddoldeb. Mae'r dyletswyddau'n gymwys ar gyfer yr holl staff (mewn rolau addysgu a heb fod yn addysgu) ac yn atgyfnerthu cyfrifoldeb ac ymatebolrwydd a rennir ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth. Gellid datblygu'r strategaethau ehangu mynediad mewn modd defnyddiol i gynnwys cynlluniau i ymgysylltu â'r holl staff o ran hyrwyddo cydraddoldeb a mynediad i gyflawni newid diwylliannol (gweler hefyd paragraff 7.23).

7.15 Roedd y ddeddfwriaeth gydraddoldeb yn ei wneud yn ofynnol i sefydliadau gasglu a defnyddio data cydraddoldeb fel rhan o'u cynlluniau cydraddoldeb.
O fewn y strategaethau ehangu mynediad nid oedd yn bosibl barnu i ba raddau roedd sefydliadau'n casglu ac yn defnyddio data i fonitro cynnydd ac i lywio eu cynlluniau. Er mwyn darparu llinell sylfaen i fesur cynnydd o fewn Cymru mae angen i Sefydliadau Addysg Uwch ddefnyddio data cyffredin sydd ar gael (ee o'r HESA) ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, yn ogystal â mynediad.

7.2 Ymagwedd rhagweithiol a'r sefydliad cyfan

7.20 Mae nifer o ofynion craidd sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth gydraddoldeb ac amrywiaeth y gellid eu mewnosod o fewn dogfennaeth strategaeth sefydliadol. Mae'r elfennau craidd hyn yn cynnwys:

- ymagwedd sefydliad cyfan;
- arweinyddiaeth glir ar faterion sy'n gysylltiedig ag anabledd;
- cyfranogiad pobl anabl;
- casglu a defnyddio gwybodaeth; a
- monitro, adolygu ac adrodd ar gynnydd.

Ymhelaethir ar y meysydd hyn yn y paragraffau canlynol.

7.21 Mae'r ddeddfwriaeth gydraddoldeb yn annog sefydliadau i gymryd ymagwedd sefydliad cyfan ac i weithio tuag at ddatblygu diwylliant cynhwysol. Mae hyn yn gyfrifoldeb a rennir rhwng yr holl staff a myfyrwyr, ac mae angen ymglymiad y sefydliad cyfan. Dylai staff unigol, felly, gymryd camau i fod yn rhagweithiol o ran eu hymagwedd ac ystyried hawliau myfyrwyr y dyfodol, y presennol a'r gorffennol yn eu cynlluniau, eu gweithgareddau a'u gweithdrefnau. Dylid gwneud yr ystyriaethau hyn heb yr angen i gategoreiddio unigolion yn ôl grwpiau cydraddoldeb (hy. Heb ystyried os datgelir anabledd neu os gwyddys bod anabledd ar rywun).

7.22 Mae'r dyletswyddau cysylltiedig yn gymwys i'r holl swyddogaethau sefydliadol. Dylai fod ymagwedd gyfannol drwy gydol y sefydliad tuag at gyflawni newid diwylliannol. Mae nifer o swyddogaethau sefydliadol yn gysylltiedig ag ehangu mynediad, gan gynnwys marchnata, derbyniadau, ymsefydlu, gwasanaethau, ystadau, gweithio mewn partneriaeth, addysgu a dysgu, asesu, cwricwlwm, datblygu staff, teithiau i'r maes, ymweliadau a gweithgareddau cymdeithasol. Gallai sefydliadau ddefnyddio eu strategaethau ehangu mynediad mewn modd defnyddiol i ddangos sut maent wedi rhoi sylw dyledus i gydraddoldeb o ran ymgymryd â'r swyddogaethau hyn.

7.23 Yn y cyd-destun ehangach yn y DU, mae enghreifftiau cyfarwyddiadol o sefydliadau'n gweithio tuag at newid sefydliad cyfan mewn perthynas ag anabledd, cydraddoldeb ac ehangu mynediad. Er mwyn cyflawni newid sefydliad cyfan a sicrhau ymgymryd ag arferion cynhwysol yn systematig ac yn gydlynol ar draws sefydliad, gwelodd y rhai ar raglen gynhwysol Yr Academi Addysg Uwch ar bolisi ac arfer (http://www.heacademy.ac.uk/ourwork/learning/disability/inclusion) yr angen i fynd i'r afael â:

- newid ar lefel sefydliadol**:** targedu polisi, strategaeth, strwythurau, systemau, prosesau, cwricwlwm, a ffactorau amgylcheddol sefydliadol, boed yn ganolog neu o fewn adrannau/ cyfadrannau; a
- newid ar lefel unigol**:** targedu agweddau, ymwybyddiaeth, gwybodaeth, dealltwriaeth, canfyddiadau a rhagdybiaethau'r unigolyn, yn ogystal ag arfer.

7.24 Mae rheolwyr uwch yn gyfrifol am sicrhau y cyflawnir dyletswyddau cydraddoldeb. Mae Cod Ymarfer Dyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl yn dweud '*Mae newid yn dechrau ar y brig. Mae arweinyddiaeth gref, glir a chyson yn allweddol i gyflawni newid yn y sector cyhoeddus*' (DRC 2005, 2.59). Mae'r newid sydd ei angen i gyflawni cydraddoldeb yn broses hirdymor sy'n dibynnu ar ymrwymiad gan y rhai sy'n gyfrifol am gynllunio a gweithredu strategol o fewn y sefydliad (gweler hefyd baragraff 6.31). Roedd y Cod Ymarfer yn cynghori uwch reolwyr i alinio cydraddoldeb i'r blaenoriaethau strategol sefydliadol, ansawdd a'r cynllun datblygu busnes i sicrhau y cymerir ymagwedd holistig drwy gydol y sefydliad(gweler Deall y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, DRC 2007).

7.25 Ar y lefel unigol, gellir hwyluso mewnosod ehangu mynediad a chydraddoldeb i bobl anabl drwy ymgysylltu â staff ledled y sefydliad a thrwy hwyluso gweithio ar y cyd rhwng gwahanol grwpiau o staff megis rhwng gwahanol wasanaethau cymorth; rhwng staff cymorth a staff academaidd, neu rhwng adrannau. Gellir defnyddio amrywiaeth o wahanol ddulliau i gefnogi a gweithio gydag unigolion ar draws y sefydliad o ran cyflawni'r newid sydd ei angen. Mae'r rhain yn cynnwys darparu datblygiad proffesiynol parhaus, ymgysylltu â myfyrwyr a hyrwyddwyr, newidiadau i brosesau rheoli unigol a hyrwyddo deialog.

7.3 Casglu a defnyddio data

7.30 Mae'n ofynnol i sefydliadau (ac yn enwedig uwch reolwyr) gasglu a defnyddio gwybodaeth fel rhan o gyflawni eu dyletswydd gydraddoldeb. Mae'n rhaid iddynt nodi eu trefniadau ar gyfer casglu gwybodaeth yn nhermau recriwtio,, cadw myfyrwyr, llwyddiant a dilyniant. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth feintiol ac ansoddol a golygu casglu gwybodaeth gan fyfyrwyr ar ansawdd eu profiadau a lefel eu bodlonrwydd neu ar natur eu cwynion. Mae'n rhaid i sefydliadau ddangos ymhellach sut maent yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i nodi llwyddiannau a chynnydd, ac, yn bwysig, i lywio meysydd a gweithrediadau o flaenoriaeth wrth hyrwyddo cydraddoldeb.

7.31 Mewn perthynas â chasglu a defnyddio data, yn gyffredinol, mae arfer sefydliadol yn wahanol ar draws y DU. Cyflogodd rhai sefydliadau staff i gasglu a dadansoddi data sefydliadol, ond nid o reidrwydd fesul grwpiau targed cydraddoldeb neu ehangu mynediad. Mae'r Uned Herio Cydraddoldeb ar hyn o bryd yn cefnogi sefydlu HEIDI cydraddoldeb (Cronfa Ddata Gwybodaeth ar Addysg Uwch i Sefydliadau), offeryn rheoli data a ddefnyddir i storio ac adennill data sefydliadol. Bydd y fersiwn a ddiweddarwyd yn cefnogi sefydliadau Addysg Uwch wrth iddynt ddadansoddi data sefydliadol fesul grwpiau cydraddoldeb (<http://www.ecu.ac.uk/our-projects/heidi-equality>).

7.32 Mae tystiolaeth storïol yn awgrymu er y caiff data ei gasglu a'i ddadansoddi yn rheolaidd gan sefydliadau, defnyddir y wybodaeth a gynhyrchir yn llai aml i lywio gweithrediadau. I'r gwrthwyneb, ni chaiff gweithrediadau eu llywio bob tro gan y data a'r ymchwil sydd ar gael o fewn sefydliadau. Yn rhaglen bolisi ac arfer cynhwysol Yr Academi Addysg Uwch, gwelwyd bod adeiladau sail tystiolaeth yn rhan hanfodol o ddatblygu a mewnosod ehangu mynediad a chydraddoldeb. Roedd sefydliadau a oedd yn cymryd rhan yn tynnu ar ymchwil mewnol ac allanol drwy gydol y broses, a gwelwyd bod data sefydliadol yn ysgogi newid.

7.4 Myfyrwyr yn cymryd rhan

7.40 Un o'r gofynion strategol, fel rhan o'r Ddyletswydd Cydraddoldeb I Bobl Anabl (2006), yw ystyried ymglymu pobl anabl â ffurfio a gweithredu cynlluniau cydraddoldeb anabledd. Er y bu rhywfaint o gynnydd yn y sector, gyda myfyrwyr yn cymryd rhan fwyfwy gyda phrosesau ac arfer sefydliadol, adroddir ar bryderon am yr angen i ymgysylltu â myfyrwyr anabl yn fwy ystyrlon wrth ffurfio polisi ac ymarfer. Cafodd y rhain eu dogfennu gan yr Uned

Herio Cydraddoldeb (ECU) (http://www.ecu.ac.uk/publications/involving-disabled-people). Nodwyd ei bod yn arfer cyffredin i sefydliadau gynnal arolygon neu grwpiau ffocws i adnabod rhwystrau a phrofiadau myfyrwyr anabl. Hefyd, mae'n hysbys bod rhai sefydliadau Addysg Uwch yn cynnwys myfyrwyr anabl wrth gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb i fesur effaith cynlluniau, polisïau a gweithdrefnau ar wahanol grwpiau cydraddoldeb. Fodd bynnag, nid yw'n arfer cyffredin i fynd i'r afael ag ymgysylltiad myfyrwyr yn strategol neu'n systematig ledled y sefydliad, ac nid yw'n gyffredin adolygu a diwygio dulliau ymglymu yn rheolaidd er mwyn sicrhau ymgysylltiadau ystyrlon a pharhaus gyda myfyrwyr. At hyn, yn y WPSAau yn Lloegr, nid oes canolbwynt eglur ar fyfyrwyr yn cymryd rhan mewn datblygu polisïau ac asesu ehangu cyfranogiad mewn sefydliadau. Fodd bynnag, mae ymchwil yn awgrymu er y gall ymglymu pobl anabl fod yn heriol, os caiff digon o adnoddau a'i gynnal yn ystyrlon, gall fod â'r canlyniad o ddod â buddion sylweddol i bawb sy'n cymryd rhan.

7.41 Mae'r Academi Addysg Uwch yn gweithio gyda'r Uned Herio Cydraddoldeb a nifer cyfyngedig o sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru a Lloegr i hyrwyddo ymglymiad myfyrwyr anabl ar draws ystod o swyddogaethau Addysg Uwch. Mae sefydliadau sydd ar y rhaglen yn gweithio i gynyddu cynrychiolaeth myfyrwyr o fewn strwythurau pwyllgor a llywodraethu yn ogystal â chreu gweithgorau a arweinir gan fyfyrwyr i symud gwaith datblygiadol ymlaen o fewn y sefydliad. Mae nifer o sefydliadau'n darparu hyfforddiant ar gyfer cynrychiolwyr myfyrwyr, yn benodol drwy weithio mewn partneriaeth ag undeb y myfyrwyr. Yn y pen draw bydd y prosiect yn cynhyrchu dogfen gyfarwyddyd a fydd yn cynnwys ystod o fentrau llwyddiannus a fabwysiadwyd gan sefydliadau Addysg Uwch.

8. Argymhellion ar gyfer sefydliadau addysg uwch

1. Gweithio tuag at ymagwedd sefydliad cyfan at ehangu mynediad, gan ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth, cymorth, cadw a llwyddiant myfyrwyr a symud ymlaen y tu hwnt i Addysg Uwch (paragraffau 6.33, 7.13, 7.14, 7.21).

2. Parhau i sicrhau bod arweinyddiaeth glir gan uwch reolwyr, ymrwymiad i ac ymgysylltiad â'r agenda hwn, er mwyn parhau i hyrwyddo newid diwylliannol sefydliadol (paragraff 6.31).

3. Gweithio gyda'r holl staff i integreiddio ehangu mynediad a chydraddoldeb ac amrywiaeth o ran pob polisi, swyddogaeth a gweithgaredd sefydliadol, a thrwy gweithio ar y cyd yn strategol (paragraff 6.33).

4. Casglu a monitro data ar ehangu mynediad, cydraddoldeb a llwyddiant myfyrwyr yn systematig i nodi tueddiadau a blaenoriaethau ar gyfer ymyriad a newid (paragraffau 6.43, 6.44, 7.15, 7.30, 7.31).

5. Defnyddio data sefydliadol, tystiolaeth gwerthuso ac asesiadau effaith cydraddoldeb i archwilio effaith bosibl a gwirioneddol ymyriadau, polisi ac arfer (paragraffau 5.12, 6.53).

6. Darparu cyfleoedd parhaol i fyfyrwyr (gan gynnwys y rhai i grwpiau ehangu mynediad) ymgysylltu'n ystyrlon â'r prosesau gwneud penderfyniadau o fewn y sefydliad (paragraff 7.40).

9. Datblygu Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach

9.1 Y Partneriaethau

9.10 Yn sgil sefydlu'r Fenter Ymgyrraedd yn Ehangach yn 2002/03, death pob sefydliad AU yn aelodau o bedair partneriaeth ranbarthol (mae'r prif sefydliadau mewn ysgrifen dywyll):

- Campws Cyntaf (De Ddwyrain Cymru) – **Prifysgol Morgannwg** gan gynnwys Coleg Brenhinol Cerdd a Drama, Prifysgol Cymru Casnewydd, Prifysgol Caerdydd, Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd, y Brifysgol Agored yng Nghymru;
- De Orllewin Cymru – **Prifysgol Abertawe**, Prifysgol Fetropolitan Abertawe, ac o 2007/08, Coleg Prifysgol y Drindod Caerfyrddin;
- Gorllewin Cymru a'r Canolbarth – **Prifysgol Aberystwyth,** Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan, y Brifysgol Agored yng Nghymru a than 2006/07 Coleg Prifysgol y Drindod Caerfyrddin;
- Gogledd Cymru – **Prifysgol Bangor,** Prifysgol Glyndŵr.

9.11 Roedd pob Partneriaeth yn cynnwys y sefydliadau AB yn y rhanbarth ac ar gyfer rhai partneriaethau, roedd partneriaid o asiantaethau llywodraeth leol a Chymru gyfan (e.e. Gyrfa Cymru). Yn y cynigion Ymgyrraedd yn Ehangach, canfu'r adolygiad hwn, yn gyffredinol, nad oedd mwy na rhestr o'r partneriaid nad oeddent yn gysylltiedig ag AU ac felly roedd yn anodd mesur lefel eu mewnbwn strategol neu asesu graddau ac effeithiolrwydd cydweithredu strategol AB ac AU o fewn y Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach. Mae CCAUC wedi sefydlu cyfarfodydd Grŵp Ymarferwyr a chynadleddau ehangu mynediad blynyddol, felly roedd yn ymddangos bod cyfleoedd i hyrwyddo rôl fwy amlwg ar gyfer partneriaid nad ydynt yn gysylltiedig ag AU. Sylwyd mai dwy yn unig o'r Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach oedd â'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn aelod ar lefel grŵp llywio strategol. O ystyried y twf a ddisgwylir mewn AU mewn darpariaeth oedolion, ac arbenigedd y Brifysgol Agored mewn meysydd oedolion, rhan-amser a meysydd eraill, byddai'n ymddangos yn fanteisiol i bob Partneriaeth ymgysylltu'n llawn â'r Brifysgol Agored yng Nghymru.

9.12 Yn gyffredinol, roedd sefydliadau'n ystyried bod y Partneriaethau'n ymgysylltu'n llwyddiannus gyda'r grwpiau targed a'r cymunedau. Dau arwydd o lwyddiant oedd cyfraniad y Partneriaethau at y cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr israddedig newydd o wardiau Cymunedau yn Gyntaf: o 8.9% yn 2000/01 i 10.2% yn 2004/05; a'r cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg o 130,322 yn 2005/06 i 132,373 yn 2006/07. Yn ychwanegol, cyflwynwyd nifer o astudiaethau achos yn egluro rhai o lwyddiannau'r Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach yn adroddiad Arad Consulting ym mis Mehefin 2007 (tud. 28-57).

9.13 Mewn cynigion Ymgyrraedd yn Ehangach, sicrhawyd cysylltedd effeithiol rhwng cynllunio ehangu mynediad sefydliadol a datblygiadau rhanbarthol ehangach yn bennaf trwy uwch staff ehangu mynediad o

sefydliadau sy'n gwasanaethu ar grwpiau llywio strategol Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach. Yn ychwanegol, roedd cyllid CCAUC ar gyfer datblygu strategaethau cysylltu sefydliadol wedi darparu tystiolaeth ddogfennol o gysylltedd effeithiol. Cyflawnwyd hyn mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys trwy gyd-leoli staff a oedd yn gweithio ar raglenni ehangu mynediad a staff a oedd yn cael eu hariannu trwy Ymgyrraedd yn Ehangach, weithiau o fewn uned ddynodedig (e.e. canolfan ar gyfer dysgu gydol oes).

9.14 Fel y nodwyd uchod, bu newidiadau yn aelodau'r Partneriaethau gyda Choleg Prifysgol y Drindod Caerfyrddin yn symud o Bartneriaeth Gorllewin Cymru a'r Canolbarth i Bartneriaeth De Orllewin Cymru. Argymhellodd gwerthusiad Arad y dylid adolygu cyflunio'r Partneriaethau. Ar wahân i Bartneriaeth De Ddwyrain Cymru (Campws Cyntaf), nifer gymharol fach o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf y mae'r Partneriaethau yn eu gwasanaethu, a gallai fod cyfleoedd i wneud defnydd mwy effeithiol o gyllid mewn llai o Bartneriaethau. Gyda'r newidiadau diweddar a pharhaus yn y sector AU yng Nghymru yn ddiweddar, yn ogystal â Phartneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach, gallai fod achos ar gyfer gostwng i dair Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach wedi'u lleoli yn Ne Ddwyrain Cymru, De Orllewin Cymru a Gogledd Cymru a'r Canolbarth. Mae hwn efallai yn gyfnod amserol i CCAUC adolygu cyflunio'r Partneriaethau oherwydd y byddant yn gweithredu am oddeutu 9 mlynedd ar ddiwedd y cyfnod ariannu cyfredol, ac mae polisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu ymhellach ers i'r Partneriaethau gael eu sefydlu'n wreiddiol.

9.2 Gweithgareddau partneriaeth

9.20 Roedd gweithgareddau'r Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach yn tueddu i ganolbwyntio ar y grwpiau allweddol a nodwyd gan y Cynulliad, megis plant, oedolion, rhieni, ysgolion a grwpiau mewn wardiau Cymunedau yn Gyntaf, siaradwyr Cymraeg, cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig gan gynnwys ceiswyr lloches, ffoaduriaid a gweithwyr mudol, a phobl anabl. Ymhlith y gweithgareddau eraill, roedd y Partneriaethau'n darparu: digwyddiadau ar gyfer disgyblion ysgol ar lefelau oedran amrywiol a oedd yn codi ymwybyddiaeth ac yn rhoi cyflwyniad i fywyd prifysgol; cynlluniau mentora ar gyfer ysgolion a disgyblion; cyrsiau mewn ysgolion haf; sesiynau adolygu ar gyfer TGAU a chydweithio â radio lleol. Yn gyffredinol, mae mwyafrif gwaith y Bartneriaeth wedi canolbwyntio ar blant ysgol neu bobl ifanc ond rhoddir sylw cynyddol i deuluoedd, oedolion a dysgu gydol oes mewn cymunedau. Cyflwynir rhestr ddangosol o weithgareddau yn Atodiad 3. Yn ogystal â gwaith rhanbarthol, bu nifer o weithgareddau Cymru gyfan a noddir gan CCAUC. Mae'r rhain wedi cynnwys rhaglen *Gwyddoniaeth Ymarferol* Cymru Gyfan (sy'n cael ei harwain gan Bartneriaeth De Ddwyrain Cymru); rhaglen Ehangu Mynediad Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (WAW) (sy'n cael ei harwain gan Bartneriaeth De Orllewin Cymru), a rhaglen e-fentora *Mentro Iaith* (sy'n cael ei harwain gan Bartneriaeth Gorllewin Cymru a'r Canolbarth).

9.21 Roedd cynigion y Bartneriaeth yn tueddu i fod yn ddogfennau gweithredol yn bennaf yn cyfiawnhau eu hariannu yn y tymor byr, fel y gellir

disgwyl o ystyried natur tymor byr eu cyllid. Serch hynny, roedd y rhain yn ddogfennau gwerthfawr ac adeiladol sy'n nodi blaenoriaethau a thargedau rhanbarthol ac yn rhoi arwyddion o ymgysylltiad cychwynnol llwyddiannus gyda grwpiau targed a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fel y dengys Atodiad 3, cafwyd amrywiaeth sylweddol o weithgarwch dros y blynyddoedd yn sgil y Partneriaethau, ac mae hyn wedi arwain at gyflwyno cannoedd o ddigwyddiadau i filoedd o gyfranogwyr.

9.3 Cymorth hirdymor ar gyfer darpar fyfyrwyr

9.30 Mae'r pwyslais mewn cynigion a ariennir gan Ymgyrraedd yn Ehangach wedi bod ar gynnal cyfres o weithgareddau a digwyddiadau a gynhelir yn flynyddol sydd wedi'u cynllunio i gyrraedd nifer wedi'i thargedu o gyfranogwyr. Cyflwynwyd rhaglenni a digwyddiadau ar gyfer grwpiau oedran penodol mewn ysgolion. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, nid ydynt yn nodi cyfleoedd i ddysgwyr fynd yn eu blaenau trwy'r gweithgareddau Ymgyrraedd yn Ehangach. Mewn rhai achosion, ni fu'n hawdd deall y cydlyniad strategol rhwng amrywiaeth y ddarpariaeth a gynigir, yn enwedig yn achos gweithgareddau 'unigryw' ar raddfa fawr.

9.31 Pan fo cymorth ehangu mynediad hydredol ar gyfer darpar ymgeiswyr i AU yn bodoli, mae wedi cynnwys datblygu llwybrau dilyniant gyda cholegau AB ac ysgolion uwchradd (mae sefydliadau'n cyfeirio atynt yn aml fel ysgolion 'compact') a sefydlu rhaglenni cyn-mynediad mewn sefydliadau AU (e.e. rhaglenni mynediad Astudiaethau Sylfaen). Ymagwedd arall fu darparu mentoriaid myfyrwyr ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd. Er enghraifft, roedd un sefydliad AU yn darparu mentoriaid myfyrwyr ar gyfer disgyblion sy'n astudio pynciau STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, mathemateg) neu ddisgyblaethau proffesiynol. Roedd enghreifftiau eraill o gymorth tymor hwy yn cynnwys canolfan ddynodedig sy'n darparu credydau amser dysgu (hawl i brynu astudio am ddim) ar gyfer y gymuned a sefydliad arall sy'n darparu cwricwlwm rhaglen agored sy'n galluogi cyfranogwyr i ddatblygu rhaglenni astudio sy'n addas i'w gofynion.

9.32 Nodwedd amlwg mewn nifer o ymagweddau sefydliadol ar gyfer gwella cyfraddau cadw a phrofiad dysgu'r myfyriwr, y cyfeirir ato'n aml yn eu strategaethau dysgu ac addysgu, yw'r cysyniad o 'ddysgu personol'. Defnyddir y cysyniad ar gyfer myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru mewn sefydliad ac mae'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, olrhain a monitro cynnydd myfyrwyr yn ofalus, cymorth hirdymor ar gyfer myfyrwyr gan diwtoriaid a mentoriaid a chyfarwyddyd ar ddefnyddio dysgu sy'n cael ei wella gan dechnoleg. Mae'n gysyniad y gellid ei ddefnyddio ar gyfer darpar fyfyrwyr Ymgyrraedd yn Ehangach cyn iddynt gyrraedd sefydliad. Gallai partneriaethau ystyried lleihau'r pwyslais ar ddarparu ystod eang o ddigwyddiadau a rhaglenni blynyddol ac ailgyfeirio eu ffocws at ymagwedd fwy dwys a phersonol ar gyfer cefnogi myfyrwyr ar raglenni a gweithgareddau Ymgyrraedd yn Ehangach. Gallai hyn gynnwys cynnig llai o ddigwyddiadau a rhaglenni, a thrwy raglenni wedi'u targedu, darparu llwybrau dysgu ar gyfer unigolion i symud o ysgolion, colegau a'r gymuned i sefydliadau AU. Gellid cyfuno hyn ag olrhain a monitro

cyfranogwyr unigol yn defnyddio system megis Rheoli Gwybodaeth Ar Draws Rhaglen Partneriaid (MIAP) (gweler 12.33).

9.4 Ymagweddau at gymorth hirdymor yn Lloegr

9.40 Yn Lloegr, mae partneriaethau Anelu'n Uwch (http://www.aimhigher.ac.uk/) wedi cael eu hannog i symud oddi wrth brosiectau unigryw tuag at raglenni o weithgareddau sy'n gysylltiedig â'i gilydd, sy'n datblygu ac yn adeiladu llwybrau dilyniant mewn AU. Y nod yw sefydlu rhaglenni hydredol o weithgareddau ar gyfer pobl ifanc sy'n fwy cynlluniedig, integredig, dilyniannol a blaengar, ac felly'n berthnasol i oedran/cyfnod cyfranogwyr ac yn adeiladu ar eu gweithgarwch ehangu cyfranogiad blaenorol. Mae'r ffordd hon o weithio wedi cael ei chysyniadu fel y Fframwaith Dilyniant Addysg Uwch, ac fe'i crynhoir fel a ganlyn:

'Mae'r Fframwaith Dilyniant Addysg Uwch (HEPF) yn darparu cyfres o egwyddorion a nodweddion i arwain partneriaethau a sefydliadau wrth symud y tu hwnt i ymyriadau WP at ddilyniant o brofiadau ar gyfer dysgwyr o fewn rhaglen gynaliadwy a chynlluniedig' (Action on Access, 2008)

Mae'r HEPF (http://www.actiononaccess.org/index.php?p=19_1_2_2) wedi datblygu i fod yn ymagwedd taith y dysgwr, ar ôl datblygu o ddull cyflwyno "dewislen o weithgareddau". Mae'r un cyntaf yn canolbwyntio ar y dysgwr, a chyhyd ag y bo'n briodol, yn bersonol, tra bo'r un olaf yn adlewyrchu ymagwedd sefydliadol neu ymagwedd sy'n cael ei harwain gan garfan. Mae manteision sy'n deillio o'r ymagwedd HEPF wedi'u rhestru yn Atodiad 4.

9.5 Adolygiad ac archwiliad critigol

9.50 Fel y nodwyd uchod eisoes, yn 2007, adolygwyd ehangu mynediad a'r Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach gan Arad Consulting ac, yn ychwanegol, mae'r Partneriaethau wedi cynnal eu harchwiliadau beirniadol rhanbarthol mewnol eu hunain ar gyfer CCAUC. Mae'r archwiliadau rhanbarthol o Bartneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach yn 2008 wedi darparu ymagwedd ansoddol 'mewnol' yn bennaf ar gyfer gwerthuso. Yn y dyfodol, gellid cryfhau'r archwiliadau trwy gael graddau mwy eglur o fewnbwn arbenigwr allanol i'r archwiliad a thrwy ddefnyddio methodoleg sy'n cynnwys astudiaeth gymharol ar draws Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach a chydag arfer a datblygiadau ledled y DU. Roedd yr heriau allweddol ar gyfer y Partneriaethau a nodwyd yn ystod y prosesau hyn yn cynnwys yr angen i:

- olrhain a monitro myfyrwyr yn fwy systematig i ddangos ymyriadau effeithiol a chymorth hydredol ar gyfer dysgwyr wedi'u targedu;
- mwy o rannu arfer da;
- mwy o dargedu oedolion mewn swydd a phobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant;
- adolygu a chryfhau'r cymorth ar gyfer pobl sy'n dechrau mewn AU o gefndir gofal;
- adolygu cyflunio Partneriaethau;

- gwella alinio gweithgareddau ehangu mynediad AU ac AB;
- mynd i'r afael â diffyg cyllid trwy wneud cais am gyllid cydgyfeirio'r UE.

Caiff rhai o'r heriau hyn eu harchwilio ymhellach isod.

9.51 I ymateb i'r archwiliad rhanbarthol a gwerthusiad Arad Consulting yn ogystal, mae rhai o'r Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach wedi cyflwyno neu wella systemau olrhain a gallant yn awr gofnodi llwyddiannau. Mae un Bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach wedi symud i'r cyfeiriad hwn trwy benodi swyddog olrhain a monitro a datblygu gwefan ar gyfer olrhain dilyniant.

9.52 Roedd archwiliadau rhanbarthol Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach 2008 yn dangos ymagweddau gwahanol o ran darpariaeth ar gyfer oedolion; roedd dau yn gweld y ffocws yn aros i raddau helaeth gyda phobl ifanc ac roedd dau wedi symud tuag at fwy o ymgysylltiad ag oedolion. Roedd yr olaf o'r rhain yn cynnwys ymagwedd Partneriaeth ehangach gyda chysylltiadau â chynghorau sgiliau sector, y Ganolfan Byd Gwaith, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, undebau llafur, yn ogystal â'r bartneriaeth sydd eisoes yn bod gyda Gyrfa Cymru. Gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sefydlu polisi newydd ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned (ACL – gweler hefyd paragraff 6.42) a chanolfannau rhanbarthol ACL, bydd Partneriaethau eisiau sicrhau cysylltiadau effeithiol â'r fenter hon.

9.53 Yn Lloegr, canfu'r rhaglen Action on Access (http://www.actiononaccess.org) *Mainstreaming and sustaining WP in institutions* fod nifer o sefydliadau yn bwriadu dod â'u gweithgarwch ehangu mynediad, ymgysylltiad cyflogwyr, dysgu cyflogeion a dysgu yn y gwaith at ei gilydd. Mae'r duedd hon yn debygol o gael ei hadlewyrchu'n ehangach yn yr WPSA sefydliadol. O ystyried y gymysgedd o aelodau, mae Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach yng Nghymru mewn sefyllfa dda i fabwysiadu ymagwedd debyg.

9.6 Arfer Effeithiol ac Ymgyrraedd yn Ehangach

9.60 Roedd gwerthusiad Arad Consulting yn rhagweld y byddai mwy o ystyriaeth yn cael ei rhoi i rannu arfer da rhwng y Partneriaethau. Cafodd hyn ymateb cymysg gan bartneriaid gydag amharodrwydd i rannu arfer yn ymwneud â chyllid, ond parodrwydd i rannu arfer da yn ymwneud â gweithgareddau. Mae'n siŵr bod yr amwysedd hwn, mewn rhai achosion, yn adlewyrchu'r ffaith fod ehangu mynediad yn cynnwys mantais gystadleuol, fel arfer pan oedd gwaith y Partneriaethau wedi'u cysylltu'n rhy agos â recriwtio myfyrwyr. Yn yr achosion hyn, efallai ei bod yn annhebygol y byddai sefydliadau partner AU yn cefnogi rhannu arfer da yn ddiymatal.

9.61 O ran arfer effeithiol ar y lefel genedlaethol, mae'r Academi Addysg Uwch wedi sefydlu'r Gwasanaeth Ymchwil Ehangu Cyfranogiad (WRPS - http://www.heacademy.ac.uk/ourwork/institutions/wp/wprs). Mae hyn yn rhan o EvidenceNet, storfa ymchwil, tystiolaeth ac adnoddau newydd yr Academi ar gyfer y sector addysg uwch yn y DU. Mae'r WRPS yn canolbwyntio ar fynediad a llwyddiant myfyrwyr o gefndiroedd amrywiol i addysg, trwy addysg

uwch, a'r tu hwnt iddi. Mae'n cynnwys deunydd sy'n ymwneud â myfyrwyr o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, myfyrwyr aeddfed, myfyrwyr â chymwysterau mynediad nad ydynt yn rhai traddodiadol, myfyrwyr anabl, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, myfyrwyr ar incwm isel, a myfyrwyr o ardaloedd isel eu cyfranogiad. Mae'n cynnwys allymestyn, cyn-mynediad, mynediad, derbyniadau, trosglwyddo, ymsefydlu, profiad blwyddyn gyntaf, cadw, cyflawniad, dilyniant, mynediad ôl-radd, a throsglwyddo i'r farchnad lafur. Gall sefydliadau yng Nghymru fanteisio ymhellach ar yr adnodd hwn trwy gyfrannu eu harfer sy'n cael ei lywio gan ymchwil a thystiolaeth i'r WPRS a thrwy ddefnyddio tystiolaeth y WPRS i lywio eu harfer eu hunain. Mae nifer o gyfosodiadau o lenyddiaeth, er enghraifft, sy'n ymwneud â materion ehangu mynediad a chydraddoldeb pwysig. Yn ychwanegol, yn Lloegr, mae Action on Access yn hyrwyddo rhannu arfer rhwng partneriaethau a sefydliadau; ac fe gefnogir hyn gan nifer o restrau JISC sy'n cael eu cynnal gan Action on Access a'r Academi Addysg Uwch i hyrwyddo rhannu profiad yn ehangach. Eto, gallai Sefydliadau a Phartneriaethau yng Nghymru gyfranogi ymhellach yn y fforymau hyn i gyfnewid gwybodaeth ac arfer.

10. Argymhellion ar gyfer Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach

7 Cynllunio ymgysylltiad cyfredol ac ymgysylltiad yn y dyfodol rhwng sefydliadau AU, rhwng AB ac AU, a darparwyr addysgol eraill, i nodi llwybrau dilyniant, yn enwedig mewn meysydd galwedigaethol (paragraff 6.42).

8 Darparu rhaglen gronnus a datblygiadol o weithgareddau ar gyfer ymgysylltu â grwpiau o bobl o bob oedran er mwyn eu galluogi i fynd ymlaen i Addysg Uwch a pharhau (paragraffau 9.31).

9 Annog staff Ymgyrraedd yn Ehangach a sefydliadau Partneriaeth i weithredu yn unol â'r heriau a nodwyd gan yr archwiliadau rhanbarthol, ac yn benodol i rannu arbenigedd a pholisïau ac arferion effeithiol yn eu sefydliadau eu hunain ac ar draws y sector (paragraffau 9.50, 9.61).

10 Ystyried rôl fwy ar gyfer partneriaid ar wahân i SAUau i arwain, a darparu cyllid ychwanegol ar gyfer y gweithgareddau Partneriaeth hyn (paragraffau 9.11, 11.23).

11. Ariannu ehangu mynediad a'r fenter Ymgyrraedd yn Ehangach

11.1 Defnyddio cyllid CCAUC ar gyfer ehangu mynediad ac Ymgyrraedd yn Ehangach

11.10 Mae'r defnydd o gyllid ehangu mynediad wedi'i nodi yn adran y strategaethau ar dargedau tymor byr ac adroddir arnynt bob blwyddyn trwy'r broses fonitro flynyddol (AMS). Roedd faint o fanylion a ddarperir ar ddefnyddio cyllid mewn sefydliad yn amrywio. Roedd rhai sefydliadau yn darparu penawdau llinell gyllideb generig (e.e. costau staff amser llawn) ac roedd nifer bach yn cyfrif am wariant yn erbyn dyraniadau gan ddefnyddio teitlau ffrwd ariannu eang CCAUC yn unig (e.e. premiymau ehangu mynediad). Roedd cyllid Premiwm Ehangu Mynediad yn cael ei ddefnyddio'n gyffredinol i gefnogi apwyntiadau staff, i ddarparu bwrsarïau a chymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr, a chyflwyno rhaglenni.

11.11 Roedd gwybodaeth am gyllid a geir mewn cynigion Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach yn cael ei darparu'n gyffredinol o dan benawdau generig eang a osodwyd gan CCAUC (e.e. costau staff) ynghyd â dyraniadau ar gyfer gweithgareddau pwysig (e.e. mentora). Roedd datganiadau monitro blynyddol hefyd yn rhoi manylion ar wariant. At ei gilydd, roedd adroddiadau am ehangu mynediad ac Ymgyrraedd yn Ehangach yn rhoi sylw agos i atebolrwydd ac roedd yn hynod ddefnyddiol cael gwariant yn ymwneud â'r penawdau dyrannu a ddefnyddir gan CCAUC. Roedd yr ymagwedd olaf hon yn galluogi gwneud cymhariaeth rhwng gwario ar flaenoriaethau ehangu mynediad penodol o un sefydliad i'r llall ac ar draws y Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach.

11.12 O ran cymharu, mae'n ofynnol i sefydliadau yn Lloegr roi manylion am eu buddsoddiadau yn ehangder y gweithgarwch ehangu cyfranogiad a gofnodwyd yn y WPSA. Nid yw'r pwyslais ar fonitro ac atebolrwydd ariannol, ond yn hytrach ar ddangos buddsoddi mewn ehangu cyfranogiad, a chwmpas y gweithgarwch sy'n cyfrannu ato. Dylid cydnabod, fodd bynnag, yn arbennig i rai sefydliadau sydd â charfannau mawr o fyfyrwyr yn dod o gefndiroedd amrywiol, bod cyfrifo buddsoddiadau penodol ar agweddau penodol o fewn maes eang ehangu cyfranogiad, yn heriol.

11.2 Cynaliadwyedd ehangu mynediad Ymgyrraedd yn Ehangach

11.20 Yn sgil ymatebion sefydliadau Cymru i werthusiad Arad Consulting, nodwyd bod angen ystyried cyllid hirdymor ymhellach i gefnogi gweithgareddau Ymgyrraedd yn Ehangach. Gwnaeth sefydliadau sylwadau hefyd ar effaith newidiadau i gyllid Ewropeaidd ar gynaliadwyedd eu gwaith ehangu mynediad. Yn y gorffennol, fe wnaeth sefydliadau elwa ar gefnogaeth sylweddol oddi wrth Gronfa Gymdeithasol Ewrop (oddeutu £16.35 miliwn rhwng 2002 a 2006). Fodd bynnag, nid oedd hyn ar gael mwyach yn yr un ffordd ac ar yr un lefel. Roedd rhai sefydliadau yn archwilio'r potensial i gael cefnogaeth oddi wrth Gronfa Gydgyfeirio newydd yr UE.

11.21 I gynorthwyo sefydliadau ymhellach wrth fodloni blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn 2006, rhoddodd CCAUC £2.5 miliwn yn ychwanegol ar ffurf premiwm Cymunedau yn Gyntaf ynghyd â chyllid ar gyfer myfyrwyr y cydnabuwyd eu bod yn 'anodd eu cadw'.

11.22 I nifer sylweddol o sefydliadau, roedd ehangu mynediad yn elfen sylfaenol yn eu cynlluniau strategol a'u modelau busnes sefydliadol. O ganlyniad, roedd yn ymddangos bod gweithgareddau a ariennir gan ehangu mynediad ar gyfer myfyrwyr pan oeddent mewn sefydliad (e.e. cadw a chymorth myfyrwyr) yn gynaliadwy. Roedd y gweithgareddau wedi cael eu hymgorffori'n dda mewn arfer sefydliadol ac wedi'u cydleoli'n gyffredin gydag unedau gweinyddol sefydledig (e.e. cofrestrfa a derbyniadau) ac yn cael eu hariannu trwy'r grant craidd i sefydliadau.

11.23 Mewn cyferbyniad, roedd yn ymddangos bod y fenter Ymgyrraedd yn Ehangach yn fenter tymor byr a'i bod yn dibynnu'n fawr ar gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru trwy linell cyllideb CCAUC. Heb y cyllid hwn, gellir dadlau bod amheuaeth ynglŷn â chynaliadwyedd y gwaith hwn. Ar wahân i'r sefydliadau arwain yn y Bartneriaeth, un neu ddau aelod o staff yn unig oedd yn cael eu hariannu gan fenter Ymgyrraedd yn Ehangach ym mhob partner AU. Heb gyllid parhaus Ymgyrraedd yn Ehangach, mae'n bosibl y byddai sefydliadau yn lleihau eu hymrwymiad i weithgarwch Partneriaeth yn sylweddol, gan ganolbwyntio efallai ar eu rhaglen ehangu mynediad eu hunain gyda llai o ysgolion compact a phartneriaid AB. Byddai angen i sefydliadau lunio barn ynghylch a oedd y cydweithio a ddarperir gan y Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach yn rhoi mantais ddigonol trwy ddarbodion maint, cydgyfrannu adnoddau a rhannu arbenigedd i sicrhau cyllid parhaus gweithgareddau Partneriaeth.

11.24 Datblygiad diddorol o fewn un Bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach fu rhannu cyfrifoldeb am goleg gaeaf ar gyfer pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant gyda'r awdurdod addysg lleol. Roedd yr un Bartneriaeth hefyd yn rhannu cyfrifoldeb am rai gweithgareddau gydag ysgolion uwchradd. Roedd yr ymagwedd hon o ymgorffori cyfrifoldeb ar gyfer gweithgareddau ar draws ystod o bartneriaid Ymgyrraedd yn Ehangach yn darparu model ar gyfer cynaliadwyedd, ac mae'n enghraifft o arfer effeithiol. Gwelir ymagwedd debyg yn Lloegr, gyda nifer o bartneriaethau Anelu'n Uwch yn datganoli rhai cyfrifoldebau, a chyllid mewn rhai achosion, i ysgolion neu awdurdodau addysg lleol (AALlau) i greu cyflwyno mwy cynaliadwy. Fodd bynnag, mae'r partneriaethau Anelu'n Uwch hyn wedi canfod bod angen i'r arian y trefnwyd ei fod ar gael i bartneriaid eraill fod yn ddigonol ac yn arwyddocaol er mwyn iddo wneud gwahaniaeth.

11.25 Fel SAUau yng Nghymru, mae'r rhan fwyaf o SAUau yn Lloegr, os nad pob un, yn gwneud gwaith allymestyn cyffredinol trwy Anelu'n Uwch wedi'i anelu at godi dyheadau tuag at AU a gwella cyflawniad cyn dechrau AU. Mae'r hinsawdd economaidd presennol o bosibl yn bygwth y gweithgarwch ehangu cyfranogiad mwy generig hwn. Gallai sefydliadau ddewis peidio ag ariannu'r ystod eang o weithgarwch allymestyn er lles myfyrwyr yn gyffredinol

a'r sector cyfan. Yn hytrach, byddant o bosibl yn targedu myfyrwyr sy'n debygol o fynd ymlaen i'w sefydliad yn y tymor byr i'r tymor canolig.

11.26 O'i chymharu â Lloegr, mae'r ymagwedd Gymreig sy'n cynnwys strategaethau ehangu mynediad sefydliadol, Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach rhanbarthol a strategaethau cymalu i uno'r ddau at ei gilydd yn cynrychioli ymagwedd integredig a datganoledig ar gyfer ehangu mynediad, a dylid canmol hyn. Yn Lloegr, mae WPSA yn canolbwyntio ar waith ehangu cyfranogiad y sefydliad, yn hytrach nag ymagweddau ehangu cyfranogiad cydweithredol lleol, sy'n cael eu rheoli'n bennaf trwy bartneriaethau ardal Anelu'n Uwch, ac nid oes angen cytundebau cymalu ffurfiol arnynt.

11.3 Ffioedd Myfyrwyr

11.30 Roedd bron pob sefydliad yn rhoi rhyw fath o gymorth ariannol i ymgeiswyr ehangu mynediad. Fel y dangosir yn y cyflwyniad, mae ffioedd y rhan fwyaf o fyfyrwyr sy'n preswylio yng Nghymru wedi cael eu dileu'n ffafriol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd hyn yn dod i ben erbyn 2010, gyda chyllid yn cael ei ailgyfeirio at lai o fyfyrwyr sydd â'r angen ariannol mwyaf. Mae hyn, ynghyd â dyfaliad y gellid codi'r cyfalaf cyfredol o £3225 ar ffioedd, yn peri pryder mawr i sefydliadau AU oherwydd gallai costau ar gyfer mwyafrif y myfyrwyr AU yng Nghymru gynyddu'n sylweddol.

11.31 Mater arall pwysig sy'n gysylltiedig â ffioedd yw bwrsarïau ac ysgoloriaethau ar gyfer marchnadoedd rhan-amser, ac yn aml oedolion. Mae ffigurau gwaith y Sefydliad Polisi Addysg Uwch (HEPI) ac UCAS, y cyfeirir atynt yn y cyflwyniad (paragraffau 4.11 a 4.13), wedi dangos twf nodedig mewn ceisiadau AU gan y rheiny dros 21 oed. Mae cyfran sylweddol o'r boblogaeth myfyrwyr hŷn ac yn y gwaith yn debygol o gofrestru ar gyfer llwybrau astudio rhan-amser. Yn dilyn argymhellion adolygiad Graham, mae CCAUC yn rhoi cymorth ariannol i sefydliadau i gefnogi astudio rhan-amser. Ar ôl sefydlu ymrestru rhan-amser yng Nghymru, mae angen ystyried cymorth ar gyfer myfyrwyr rhan-amser yn y dyfodol, pan fydd y cytundeb ariannol cyfredol yn dod i ben yn 2010. Dylid nodi hefyd ei fod yn ofyniad yn ail gyfnod (Mai 2009) Adolygiad Grŵp Jones o Addysg Uwch.

11.32 Yn Lloegr, canfu'r Swyddfa Mynediad Teg (OFFA) fod y nifer sy'n cael bwrsarïau myfyriwr wedi bod yn is na'r disgwyl mewn llawer o sefydliadau. Credir bod hyn yn rhannol oherwydd nad yw myfyrwyr yn ymwybodol eu bod yn gymwys i'w cael. Ar hyn o bryd, mae Cytundebau Mynediad yn cael eu hychwanegu at WPSA a bydd y dogfennau'n cael eu hintegreiddio a bydd yr adrodd yn cael ei gytuno. Fel y nodwyd yn gynharach, nid yw'n ofynnol i SAUau Cymru gyflwyno Cytundebau Mynediad Teg.

12. Monitro a gwerthuso Ehangu Mynediad

12.1 Monitro sefydliadol

12.10 Roedd gan y rhan fwyaf o sefydliadau fecanweithiau ar waith ar gyfer monitor gweithgaredd ehangu mynediad. Fel rheol, roedd gan Ddirprwy Is-Ganghellor neu uwch reolwr arall gyfrifoldeb uniongyrchol am y gweithgaredd. Roedd y pwyslais ar fonitro blynyddol gyda rhai sefydliadau yn defnyddio dangosyddion perfformiad allweddol mewnol (e.e. ar gadw neu gyflogaeth) yn fesurau perfformiad. Mewn rhai strategaethau ehangu mynediad, cyfeiriwyd yn achlysurol at allbynnau monitro er mwyn ffurfio gweithredoedd yn y dyfodol, ond prin oedd y dystiolaeth o hyn. O fewn sefydliadau, cafodd data monitro mwy rheolaidd ar weithgareddau ehangu mynediad, fel arfer bob chwarter neu hanner blwyddyn, eu cyflwyno i bwyllgorau, grwpiau gorchwyl, canolfannau dynodedig a staff allweddol, er bod y graddau yr oedd y grwpiau/staff hyn yn defnyddio'r data hwn i gefnogi cynllunio strategol yn aneglur. Roedd hefyd yn ofynnol i sefydliadau gyflwyno datganiadau monitro blynyddol (AMS) ar ddefnyddio cyllid ehangu mynediad i CCAUC.

12.2 Targedau ehangu mynediad

12.20 Un o ofynion cyllid ehangu mynediad CCAUC oedd bod strategaethau ehangu mynediad sefydliadol yn nodi targedau tymor byr, canolig a hir. Roedd grid yn rhoi manylion am y targed ac allbynnau eraill yn llawer o'r strategaethau. Yn gyffredinol, rhestr o ddigwyddiadau a gweithgareddau oedd y targedau, ac yn y rhan fwyaf o achosion, roeddent yn amcangyfrif nifer y digwyddiadau a'r cyfranogwyr. Roedd hyn yn cynrychioli tua'r unig elfen allbwn fesuradwy. Roedd hefyd yn anghyffredin i'r strategaethau roi mwy na rhagolwg tymor byr. Nodwyd diffyg data mesuradwy, data trylwyr a phwyslais ar fewnbynnau yn hytrach na chanlyniadau strategol gan Arad Consulting. Wrth ymateb i ganfyddiadau Arad, roedd sefydliadau'n cytuno bod prinder mesurau effaith, ond fe wnaethant haeru bod hyn yn rhannol oherwydd diffyg diffiniadau targed. Er gwaethaf yr awydd am fwy o arweiniad, roedd yn ymddangos bod sefydliadau yn colli cyfle i ddangos llwyddiant eu hymyriadau ehangu mynediad, a'u bod yn parhau i wneud hynny.

12.3 Gwerthuso ac asesu effaith ehangu mynediad

12.30 Mae'r paragraffau uchod wedi dangos ymrwymiad cryf oddi wrth sefydliadau a Phartneriaethau i roi manylion am atebolrwydd ariannol ar gyfer defnyddio cyllid ehangu mynediad ac Ymgyrraedd yn Ehangach. Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth o werthuso effaith gweithgareddau yr oedd strategaethau ehangu mynediad sefydliadol yn ei chynnwys. Pan soniwyd am werthuso, roedd hyn fel arfer yng nghyd-destun cael adborth uniongyrchol oddi wrth diwtoriaid a chyfranogwyr ar ddigwyddiadau a gweithgareddau eraill. Roedd yn ymddangos bod sefydliadau yn derbyn yn oddefol y byddai CCAUC yn comisiynu adolygiadau gwerthuso cynhwysfawr megis yr adolygiadau a gynhaliwyd gan Arad Consulting a'r Academi Addysg Uwch. Byddai asesiad effaith mwy rhagweithiol a thrylwyr yn cefnogi achos busnes

ar gyfer ehangu mynediad mewn sefydliadau ac ar draws y sector fel ei gilydd.

12.31 Roedd yr adroddiad dilynol gan Arad Consulting ym mis Mehefin 2007 yn cynnwys astudiaethau achos a oedd yn cyfrannu at y gwerthusiad mewn modd ansoddol. Er nad oedd yr astudiaethau achos hyn ynddynt eu hunain yn darparu gwybodaeth drylwyr a mesuradwy am effaith, roeddent yn rhoi syniad o ymagweddau ehangu mynediad a oedd wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol.

12.32 Fel y nodwyd uchod, pwynt pwysig a wnaed gan Arad Consulting oedd y diffyg olrhain a monitro myfyrwyr sy'n ymgymryd â rhaglenni a digwyddiadau ehangu mynediad cyn dechrau, yn enwedig y rheiny a ddarperir trwy'r fenter Ymgyrraedd yn Ehangach. Roedd y strategaethau ehangu mynediad sefydliadol, a ysgrifennwyd yn 2006, yn cyfeirio ychydig iawn, os o gwbl, at olrhain a monitro myfyrwyr ehangu mynediad cyn dechrau. Roedd y cynigion Ymgyrraedd yn Ehangach, a ysgrifennwyd yn 2008, a'r archwiliadau rhanbarthol, a gyflwynwyd ar ddiwedd 2008, yn dangos bod Partneriaethau wedi ymateb i argymhellion Arad. Roedd un Bartneriaeth wedi datblygu cronfa ddata ac wedi penodi swyddog olrhain i fonitro ymglymiad cyfranogwyr ac ysgolion ac roedd y Partneriaethau eraill wrthi'n datblygu neu'n gwella olrhain, er enghraifft, trwy olrhain myfyrwyr blwyddyn 12 ar raglenni haf i gyrsiau AU.

12.33 O ran ymagwedd fwy soffistigedig ar gyfer olrhain myfyrwyr, mae ymagwedd sy'n datblygu trwy'r Rhaglen Rheoli Gwybodaeth Ar Draws Partneriaid (MIAP - <http://miap.gov.uk/products/lrs>). Sefydlwyd hyn yn y DU yn 2002 ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn aelod partner wrth ddatblygu ac ymgynghori ar gynnydd. Mae MIAP, trwy ei Wasanaeth Cofrestru Dysgwyr, yn neilltuo Rhif Dysgwr Unigryw (ULN) i bawb dros 14 oed. Mae'r ymagwedd wedi'i chynllunio i symleiddio'r arfer o gasglu a rhannu gwybodaeth rhwng dysgwyr unigol a darparwyr addysg a hyfforddiant. Bydd y gwasanaeth yn ymdrin â'r sbectrwm addysg o ysgolion, colegau chweched dosbarth i sefydliadau AB ac AU yng Nghymru a Lloegr. Bydd yr ULN yn cael ei gyflwyno i ddechrau mewn dysgu ôl-16 mewn nifer cyfyngedig o ysgolion a cholegau AB yng Nghymru, a disgwylir y bydd sefydliadau AU yng Nghymru a Lloegr yn dechrau defnyddio ULN ym mis Medi 2009. Byddai'n ymddangos bod cyfle i fanteisio ar y system olrhain hon. Byddai mabwysiadu MIAP yn galluogi Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach a darparwyr ehangu mynediad i fonitro cyfres o ymglymiadau tymor hwy yn effeithiol, gyda myfyrwyr targedig cyn iddynt ddechrau hyd at ddechrau mewn AU. Bydd y system hon yn cynnig y fantais o hwyluso olrhain mynediad myfyrwyr i unrhyw SAU yn y DU, tra bo'n ymddangos bod y rhan fwyaf o'r systemau olrhain cyfredol yn cyfyngu olrhain i SAUau partner. Er mwyn cytuno ar ymagweddau olrhain a monitro rhwng sefydliadau yng Nghymru, gallai CCAUC ddatblygu 'pecyn canllawiau' ar gyfer olrhain a monitro trwy ymgynghori ar draws y sector AU.

12.34 Yn Lloegr, mae Anelu'n Uwch a sefydliadau AU wedi bod dan bwysau cryf i ddangos effaith cyllid ehangu cyfranogiad, gan gynnwys monitro ac olrhain. Eir i'r afael â hyn mewn nifer o ffyrdd:

- canllawiau targedu mwy effeithiol oddi wrth CCAULI;
- templedi monitro sy'n casglu gwybodaeth gyffredin o'r holl bartneriaethau Anelu'n Uwch ac yn hwyluso dadansoddi;
- gofynion ychwanegol ar gyfer partneriaethau Anelu'n Uwch o ran gwerthuso effaith;
- cefnogi i wella gallu sefydliadau a phartneriaethau Anelu'n Uwch i gynnal gwerthusiad effaith (mae cymorth yn cynnwys ymchwil gan NFER ar allu partneriaeth Anelu'n Uwch – gan gynnwys gwybodaeth a data sydd ar gael – i gynnal gwerthusiad effaith tebyg, a rhaglen datblygu gallu gwerthuso ar gyfer sefydliadau a phartneriaethau sy'n cael ei harwain gan Brifysgol Caerhirfryn – gweler isod);
- dadansoddiad cenedlaethol o ddata monitro a gwerthuso a gynhyrchir gan bartneriaethau Anelu'n Uwch; gofyniad newydd ar gyfer asesiadau strategol ehangu cyfranogiad i ddangos gweithgarwch cyfranogi ar draws cylch bywyd y myfyriwr mewn sefydliadau, gosod targedau heriol ac adrodd ar gynnydd yn flynyddol.

12.35 Mae'r gwaith ar werthuso effaith Partneriaethau Anelu'n Uwch ac ehangu cyfranogiad mewn sefydliadau wedi cael ei arwain gan y Ganolfan ar gyfer Astudio Addysg a Hyfforddiant (CSET) ym Mhrifysgol Caerhirfryn. Mae'r ymagwedd wedi bod yn seiliedig ar hyrwyddo rhaglen dreigl ddetholus o werthuso gan geisio gwerthuso rhannau o'r rhaglen bob blwyddyn, yn hytrach na gwerthuso popeth yn gyfartal ac yn barhaus; ceir mwy o fanylion gan CCAULI (http://www.hefce.ac.uk/widen/research/capacity/). Mae gwerthusiadau ac ymchwiliadau allanol eraill o ehangu cyfranogiad hefyd yn cael eu cynnal yn Lloegr, er enghraifft, cynhaliwyd gwerthusiad gan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Addysgol (NFER) yn 2005 ac mae adolygiad arall yn cael ei gynnal ar hyn o bryd gydag adroddiad interim ar gael ar allu partneriaethau Anelu'n Uwch i gynnal gwerthusiad effaith (http://www.nfer.ac.uk/nfer/publications/AIM01/AIM01.pdf).

13. Argymhellion ar gyfer CCAUC a/neu Lywodraeth Cynulliad Cymru

11 Gofyn i sefydliadau a Phartneriaethau gynhyrchu a chyflwyno strategaethau ehangu mynediad cryno sy'n darparu trosolwg o'u gwaith yn y maes hwn (hy. yn ymwneud ag ehangu mynediad, cydraddoldeb, cadw myfyrwyr, llwyddiant myfyrwyr a chysylltiadau â strategaethau sefydliadol eraill). Dylai'r strategaethau hyn gynnwys canlyniadau a cherrig milltir arfaethedig yn y tymor byr, canolig a hir. Dylid darparu gwybodaeth fwy manwl fel dogfennau atodedig. (paragraff 6.11).

12 Datblygu canllawiau, wrth ymgynghori â'r sector, ar nodi a thargedu grwpiau ehangu mynediad, olrhain a monitro dilyniant myfyrwyr a diffinio canlyniadau a dangos effaith (paragraffau 6.53, 9.31, 9.51,12.33).

13 Annog sefydliadau Addysg Uwch i gasglu, dadansoddi a defnyddio'n systematig data cyffredin ar ehangu mynediad, cydraddoldeb a llwyddiant myfyrwyr i lywio eu gwaith yn y maes hwn. Dylai'r gefnogaeth hon ystyried y system MIAP sy'n datblygu (paragraffau 6.43, 6.44, 7.30, 7.31, 12.33).

14 Ei wneud yn ofynnol i sefydliadau a Phartneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach ddarparu adroddiadau monitro a diweddariadau blynyddol sydd, er enghraifft, yn rhoi tystiolaeth am eu hymateb i bolisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru, gweithgareddau ar y cyd, defnydd arian yn ogystal ag effeithiolrwydd eu hymyriadau. Byddai'r adroddiadau hyn yn ffurfio sail ar gyfer deialogau strategol ehangu mynediad rhwng Sefydliadau Addysg Uwch a CCAUC (paragraffau 5.12, 11.10, 12.30).

15 Adolygu ffurfwedd Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach er mwyn mwyafu dosbarthu adnoddau a hyfywedd tymor hirach Partneriaethau rhanbarthol. Ystyried cynaliadwyedd tymor hirach y fenter Ymgyrraedd yn Ehangach, gan ymgynghori â sefydliadau Addysg Uwch a'u partneriaid Ymgyrraedd yn Ehangach (paragraffau 9.13, 11.23).

14 Casgliadau

14. 1 Strategaethau ehangu mynediad sefydliadol

14.10 Mae'r ddogfennaeth a astudiwyd yn yr adolygiad hwn wedi dangos ymrwymiad cryf iawn o fewn sefydliadau yng Nghymru i ehangu mynediad a thipyn o lwyddiant. Dangosodd astudiaeth o'r targedau tymor byr, canolig a hir y rhoddwyd adnoddau sylweddol i fentrau a rhaglenni cyn cychwyn ac i gefnogi myfyrwyr ar ôl iddynt gychwyn mewn sefydliadau. At hyn, adlewyrchwyd effeithiolrwydd y gefnogaeth yn y lefel uchel gyffredinol o fodlonrwydd myfyrwyr yn y sector yng Nghymru yn ei gyfanrwydd. Yn ogystal â hyn, mae ystadegau HESA ledled y DU yn y blynyddoedd diwethaf wedi dangos bod y sector Addysg Uwch yng Nghymru yn perfformio'n well yn gyson na'r sectorau Addysg Uwch eraill yn y DU ar ystod o ddangosyddion perfformiad ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

14.11 Hyd yn hyn, mae strategaethau ehangu mynediad wedi blaenoriaethu gadawyr ysgol a phobl ifanc yn helaeth. Rhagwelir gostyngiad o 4.9% yn yr ystod oedran hon yn y degawd sydd i ddod ac mae achos cryf dros ganolbwyntio'n fwy ar gylch gorchwyl pob oedran *Ymestyn yn Uwch*, a pharhau i gydnabod anghenion pobl ifanc, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Dangosodd rhagamcaniadau demograffig dwf yn y boblogaeth o tua 12% ar gyfer pobl 25-29 oed yn y 10 mlynedd nesaf yn rhoi rhagor o dystiolaeth ar gyfer y canolbwynt ehangach hwn ar oedolion sy'n dysgu. Dylid ystyried hyn o fewn cyd-destun y cynnydd sylweddol iawn mewn ceisiadau gan oedolion am fynediad i Addysg Uwch o ganlyniad i'r dirywiad economaidd. Felly, mae'n ymddangos bod achos busnes perswadiol iawn dros gynyddu'r gwaith ehangu mynediad a dargedir at oedolion sy'n dysgu. Mae astudiaethau yng Nghymru a'r DU yn dangos bod tua 70% o ddarpar ddysgwyr o oedolion eisoes yn cael eu cyflogi felly mae patrymau astudio hyblyg a dysgu yn y gweithle yn debygol o gael mwy o bwysigrwydd. Hefyd mae gan Gymru fantais dros Loegr oherwydd y gall dysgu yn y gweithle gael ei achredu drwy'r fframwaith credydau a chymwysterau cenedlaethol (CQFW).

14.12 Wrth bwysleisio pwysigrwydd i'r economi a'r gymdeithas o gynyddu ymhellach ddarpariaeth dysgu i oedolion yn Addysg Uwch, bydd arianwyr a 'r rhai sy'n gwneud polisïau eisiau sicrhau y darperir arian a datblygu staff ychwanegol, fel sy'n briodol. Byddai cynyddu gwaith gydag oedolion ar draul lleihau gwaith trawsnewid mewn ysgolion ac Addysg Bellach yn arwain at bobl ifanc oedran ysgol yn colli cyfleoedd codi dyheadau a sgiliau yn Addysg Uwch. Mae'n bwysig, felly, bod polisïau a strategaethau ehangu mynediad Addysg Uwch yn ystyried y cydbwysedd rhwng sicrhau yr anogir pobl ifanc i gyflawni eu llawn botensial, gan gynnwys mynd i mewn i ddysgu a sgiliau lefel uwch lle bo'n bosibl, ac ar yr un pryd darparu mwy o lwybrau i Addysg Uwch a sgiliau lefel uwch i oedolion.

14.13 Yn eu fformat cyfredol, yn aml mae gan strategaethau ehangu mynediad gymysgedd braidd yn lletchwith o gynllunio strategol wedi'i gyfuno â

manylion gweithredol sylweddol. Efallai na fydd staff sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag ehangu mynediad yn ei weld o fudd nag yn ddefnyddiol i ddefnyddio dogfennau mor hir a chymhleth. Efallai bydd CCAUC hefyd yn gweld y math hwn o adrodd yn anodd o ran gwneud cymariaethau ystyrlon rhwng sefydliadau ac ar draws y sector Addysg Uwch. Gallai'r dull hwn o adrodd fod yn rhwystr i gyflawni newid lle bod angen i'r holl staff mewn sefydliad 'brynu i mewn' i fuddion ehangu mynediad. Mae buddion i sefydliadau gyhoeddi a rhannu datganiadau strategaeth byr yn eang. Byddai'r rhain yn debyg i'r WPSAau yn Lloegr ac yn cipio agweddau allweddol ar strategaethau ehangu mynediad a newid trawsnewidiol sefydliadol. Gellid darparu manylion gweithredol a gwybodaeth monitro ariannol i CCAUC drwy ddogfennaeth gefnogol ar wahân, wedi'u hatodi i'r datganiadau strategaeth. Gallai'r fath ddatganiadau strategaeth egluro rôl a swyddogaeth canolfannau ehangu mynediad pwrpasol, a'u perthynas ag unedau academaidd ac â chenhadaeth a diben y sefydliad.

14.14 Mae gan lawer o sefydliadau gynlluniau hirsefydlog ar gyfer darparu cymorth cyfredol i fyfyrwyr ehangu mynediad ar ôl iddynt ymrestru yn y sefydliad. Byddai o fudd i ddysgwyr a phartneriaid pe bai Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach yn datblygu ymagweddau tebyg a fynegir yn glir i gyfranogwyr ar raglenni Ymgyrraedd yn Ehangach, er enghraifft, drwy ddatblygu llwybrau dilyniant clir a chanolbwyntio ar gadw a llwyddiant dysgwyr Ymgyrraedd yn Ehangach (gweler hefyd baragraff14.24).

14.2 Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach

14.20 Mae'r fenter Ymgyrraedd yn Ehangach wedi sefydlu ystod sylweddol o weithgareddau ac ymyriadau sy'n cynnwys colegau addysg bellach, ysgolion uwchradd, oedolion, cymunedau lleol, sefydliadau gwirfoddol, asiantaethau'r llywodraeth a busnesau lleol. Er ei bod yn anodd ar hyn o bryd i werthuso'n llawn effaith a chanlyniadau y cydweithio hwn, nid oes amheuaeth bod sefydliadau yng Nghymru wedi cymryd eu hymrwymiad i ehangu mynediad, gan gynnwys y Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach, o ddifrif calon. Mae'r Partneriaethau hefyd wedi dangos sylw clodwiw i ymatebolrwydd a darparodd y ddogfennaeth a oedd ar gael drywydd archwilio ar gyfer cymhwysiad ymarferol cyllid Ymgyrraedd yn Ehangach.

14.21 Mae'r fenter Ymgyrraedd yn Ehangach a darpariaeth ehangu mynediad y Sefydliadau Addysg Uwch wedi cael canolbwynt pob oedran ac roedd yn ymddangos bod cynllunio cyfredol o fewn y Partneriaethau yn rhoi sylw cynyddol i ddysgu i oedolion. O ran targedu oedolion, efallai gallai Partneriaethau gymryd i ystyriaeth nid yn unig y gwaith sy'n canolbwyntio ar oedolion o fewn eu sefydliadau partner, ond hefyd profiad hir y Brifysgol Agored yn y cyd-destun hwn, drwy gysylltiadau agosach â'r Brifysgol Agored yng Nghymru a sefydliadau megis Niace Dysgu Cymru. Yn ogystal â hyn, dylai'r Partneriaethau geisio sefydlu cysylltiadau â'r partneriaethau dysgu cymunedol i oedolion (ACL) newydd a noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

14.22 Fel y dangosir uchod, ers iddynt ddechrau, mae Partneriaethau rhanbarthol Ymgyrraedd yn Ehangach wedi cyfrannu'n sylweddol at y dirwedd ehangu mynediad. Fodd bynnag, yn ddiweddar, mae hi wedi bod yn amlwg bod angen adolygiad o strwythur a chyfansoddiad y Partneriaethau. Gallai cyflunio arwain at set gryfach o bartneriaid a defnydd mwy effeithlon o arian. Gyda 'r newidiadau diweddar a chyfredol yn y sector Addysg Uwch yng Nghymru, yn ogystal â Phartneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach, gallai fod achos dros leihau'r Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach i dair, wedi'u lleoli yn Ne Ddwyrain Cymru, De Orllewin Cymru a Gogledd a Chanolbarth Cymru. Gallai'r gwaith adnewyddu hefyd fynd i'r afael â gwerth ac effeithiolrwydd y cysylltiadau rhwng sefydliadau Addysg Uwch a cholegau Addysg Bellach o fewn y Partneriaethau. Er enghraifft, gallai fod mwy o sylw i fapio llwybrau dilyniant, yn enwedig o gwmpas pynciau galwedigaethol, trwy Ymgyrraedd yn Ehangach i mewn i Addysg Bellach, a lle bo'n briodol, ymlaen at Addysg Uwch. Yn y cyd-destun hwn, gallai sefydliadau Addysg Uwch ystyried rôl lawnach i bartneriaid nad ydynt yn y maes Addysg Uwch y tu hwnt i'w rôl gyfredol sef cynrychiolaeth yng nghyfarfodydd Grŵp Ymarferwyr Ymgyrraedd yn Ehangach a chyfranogiad yn y cynadleddau ehangu mynediad blynyddol. Gallai rôl ymestynedig gynnwys trosglwyddo mwy o gyfrifoldeb dros gynllunio strategol a datblygu i bartneriaid nad ydynt ym maes Addysg Uwch.

14.23 Mewn ymateb i werthusiad Arad Consulting o'r rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach, roedd y sefydliadau wedi gobeithio y byddai mwy o ystyriaeth wedi cael ei rhoi i rannu arfer effeithiol rhwng y Partneriaethau. Byddai manteision mewn archwilio ffyrdd y gallai cyfnewid arfer effeithiol rhwng y Partneriaethau, yn ogystal â chyfarfodydd a chylchlythyrau'r Ymarferwyr. Yn y cyswllt hwn, mae'n bosibl y bydd rôl ar gyfer yr Academi Addysg Uwch o ran cyfrannu at ledaenu arfer effeithiol.

14.24 Fel y nodwyd yn gynharach, dangosodd y rhan fwyaf o sefydliadau sylw clodwiw i ymatebolrwydd ariannol, fodd bynnag cafwyd hefyd cydnabyddiaeth bod gwerthuso effaith gwaith ehangu mynediad ar ei gamau cynnar. Mae olrhain a monitro mwy effeithlon o gyfranogwyr Ymgyrraedd yn Ehangach ac ehangu mynediad yn hanfodol. Yn ddelfrydol, dylid ymgymryd ag olrhain a monitro mewn ffordd gydlynol a gytunir arni, gan yr holl sefydliadau a phartneriaethau. Gallai monitro ac olrhain gynnwys datblygu, trwy ymgynghori â'r sector, 'pecyn cymorth' arwain a defnydd Gwasanaeth Cofrestru Dysgwyr MIAP. Gallai gwella olrhain a monitro cyfranogwyr ar raglenni Ymgyrraedd yn Ehangach ac ehangu mynediad gyfrannu at ddangos effaith a llwyddiant llawn yr ariannu hwn a chyfrannu at achos busnes sefydliad a Phartneriaeth dros ehangu mynediad.

14.25 Er bod CCAUC wedi comisiynu adolygiadau Arad a'r Academi Addysg Uwch ar ehangu mynediad ac Ymgyrraedd yn Ehangach ledled Cymru, mae'r archwiliadau rhanbarthol diweddar o Bartneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach wedi dangos ymagwedd sydd i raddau helaeth yn 'fewnol' ac yn ansoddol at werthuso. Er eu bod yn ddefnyddiol fel mecanweithiau adrodd, gellid cryfhau'r archwiliadau hyn ymhellach gan sicrhau naws gliriach o

allanoldeb a mwy o sylw i gymhariaeth ar draws Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach ac ag arfer a datblygiadau ledled y DU.

15 Argymhellion

Mae'r argymhellion isod wedi cael eu cyfeirio at y prif randdeiliaid ar gyfer ehangu mynediad at addysg uwch yng Nghymru. Fel y nodwyd yn y paragraffau cychwynnol, mae'r adolygiad hwn yn strategol eang ei natur ac wedi'i seilio ar strategaethau a chynigion sydd yn agos at ddiwedd eu cyfnod ariannu. Felly, mae'r adolygiad yn cydnabod nad yw wedi cipio pob manylyn o weithgareddau ehangu mynediad newydd a datblygol sy'n digwydd ledled y sector Addysg Uwch yng Nghymru. Yn unol â hyn, mae'r adolygiad yn rhagweld efallai y bydd rhai o'r argymhellion hyn eisoes ar y gweill mewn rhai sefydliadau.

15.1 Argymhellion ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch

Dylai Sefydliadau Addysg Uwch:

1. Weithio tuag at ymagwedd sefydliad cyfan at ehangu mynediad, gan roi ystyriaeth i gydraddoldeb ac amrywiaeth, cymorth i fyfyrwyr, cadw myfyrwyr, a llwyddiant a symud ymlaen y tu hwnt i Addysg Uwch (paragraffau 6.33, 7.13, 7.14, 7.21).

2. Parhau i sicrhau bod arweinyddiaeth glir gan yr uwch reolwyr, ac ymrwymiad i ac ymgysylltiad â'r agenda hwn, er mwyn parhau i hyrwyddo newid diwylliannol sefydliadol (paragraff 6.31).

3. Gweithio gyda'r holl staff i integreiddio ehangu mynediad a chydraddoldeb ac amrywiaeth o ran yr holl bolisïau, swyddogaethau a gweithgareddau, a thrwy weithio ar y cyd yn strategol (paragraff 6.33).

4. Casglu a monitro data yn systematig ar ehangu mynediad, cydraddoldeb a llwyddiant myfyrwyr i adnabod tueddiadau a blaenoriaethau ar gyfer ymyrraeth a newid (paragraffau 6.43, 6.44, 7.15, 7.30, 7.31).

5. Defnyddio data sefydliadol, tystiolaeth gwerthuso ac asesiadau effaith cydraddoldeb i archwilio effaith bosibl a gwirioneddol ymyriadau, polisi ac arfer (paragraffau 5.12, 6.53).

6. Darparu cyfleoedd parhaus i fyfyrwyr (gan gynnwys y rhai o grwpiau ehangu mynediad) er mwyn iddynt ymgysylltu'n ystyrlon â phrosesau gwneud penderfyniadau o fewn y sefydliad (paragraff 7.40).

15.2 Argymhellion ar gyfer Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach

Dylai Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach:

7. Fapio ymgysylltiad cyfredol ac yn y dyfodol rhwng sefydliadau Addysg Uwch,, rhwng Addysg Bellach ac Addysg Uwch, a darparwyr addysgol eraill,

er mwyn adnabod llwybrau dilyniant, yn enwedig ym meysydd galwedigaethol (paragraff 6.42).

8. Darparu rhaglen gronnus a datblygiadol o weithgareddau er mwyn ymgysylltu â grwpiau o bobl o bob oedran i'w galluogi i symud ymlaen at a thrwy Addysg Uwch (paragraffau 9.32).

9. Annog staff Ymgyrraedd yn Ehangach a sefydliadau Partneriaeth weithredu ar yr heriau a nodwyd gan yr archwiliadau rhanbarthol ac yn benodol i rannu arbenigedd o fewn eu sefydliadau eu hunain ac ar draws y sector (paragraffau 9.50, 9.61).

10. Ystyried rôl fwy i bartneriaid heblaw am sefydliadau Addysg Uwch arwain arni, a darparu arian ychwanegol ar gyfer y gweithgareddau Partneriaeth hyn 9.11, 11.24).

15.3 Argymhellion ar gyfer CCAUC a/neu Lywodraeth Cynulliad Cymru

Dylai CCAUC a/neu Lywodraeth Cynulliad Cymru:

11. Ofyn i sefydliadau a Phartneriaethau gynhyrchu a chyflwyno strategaethau ehangu mynediad cryno sy'n darparu trosolwg o'u gwaith yn y maes hwn (hy. Yn ymwneud ag ehangu mynediad, cydraddoldeb, cadw myfyrwyr, llwyddiant myfyrwyr a chysylltiadau â strategaethau sefydliadol eraill). Dylai'r strategaethau hyn gynnwys canlyniadau a cherrig milltir arfaethedig yn y tymor byr, canolig a hir. Dylid darparu mwy o wybodaeth fel dogfennau atodedig. (paragraff 6.11).

12. Datblygu canllawiau, mewn ymgynghoriad â'r sector, ar adnabod a thargedu grwpiau ehangu mynediad, olrhain a monitro cynnydd myfyrwyr, diffinio canlyniadau a dangos effaith (paragraffau 6.53, 9.32, 9.51,12.33).

13. Annog sefydliadau i gasglu, dadansoddi a defnyddio'n systematig data cyffredin ar ehangu mynediad, cydraddoldeb a llwyddiant myfyrwyr i lywio eu gwaith yn y maes hwn. Dylai'r cymorth hwn ystyried y system MIAP datblygol (paragraffau 6.43, 6.44, 7.30, 7.31, 12.33).

14. Ei wneud yn ofynnol i sefydliadau a Phartneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach ddarparu adroddiadau monitro blynyddol a diweddariadau, sydd, er enghraifft, yn dangos eu hymateb i bolisïau a blaenoriaethau, gweithgareddau ar y cyd a defnydd cyllid Cynulliad Cymru yn ogystal ag effeithiolrwydd eu hymyriadau. Byddai'r adroddiadau hyn yn ffurfio sail ar gyfer deialogau strategol ehangu mynediad rhwng Sefydliadau Addysg Uwch a CCAUC (paragraffau 5.12, 11.10, 12.30).

15. Adolygu cyflunio'r Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach i fwyafu dosbarthu adnoddau a hyfywedd hirdymor y Partneriaethau rhanbarthol. Adolygu cynaliadwyedd hirdymor y fenter Ymgyrraedd yn Ehangach drwy ymgynghori â sefydliadau Addysg Uwch a'u partneriaid Ymgyrraedd yn Ehangach (paragraffau 9.14, 11.23).

Atodiad 1 – Dogfennaeth sy'n cefnogi'r adolygiad

- Strategaethau Sefydliadol ar gyfer Ehangu Mynediad 2006 i 2009
- Cynigion ariannu'r Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach 2008 i 2010
- Datganiadau Monitro Blynyddol ar gyfer Ehangu Mynediad 2007/08
- Archwiliadau Critigol Rhanbarthol Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach 2008
- Cofnodion Pwyllgor Ehangu Mynediad CCAUC 2006 i 2008
- Cofnodion Is-grŵp Ymgynghorol Ymgyrraedd yn Ehangach 2005 i 2008
- Cylchlythyrau, polisïau ac agendâu sy'n dod i'r amlwg gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n debygol o gael effaith ar ehangu mynediad a'r Partneriaethau *Ymgyrraedd yn Ehangach*:
    - *Ymgeisio yn Uwch: Addysg Uwch a'r Wlad sy'n Dysgu (2002)*
    - *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith (2006)*
    - *Cymru: Economi yn Ffynnu (2005)*
    - *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* a'r *Cynllun Gweithredu* perthynol *(2008)*
    - *Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (2008)*
    - *Dull Gweithredu Newydd o ran Dysgu Oedolion yn y Gymuned* (ACL) *(2008).*
- *Ariannu Teg a Hyblyg: Model Cymreig ar gyfer Hyrwyddo Ansawdd a Mynediad mewn Addysg Uwch* (Adroddiad Rees 2005)
- *Adolygiad Graham o Gynlluniau Astudio Addysg Uwch Rhan-amser yng Nghymru* (2006)
- *Prosperity for All in the Global Economy - World Class Skills* (adroddiad Leitch 2006)
- *Addewid a Chyflawniad: Yr Adroddiad Annibynnol o Genhadaeth a Phwrpas Addysg Bellach yng Nghymru yng nghyd-destun Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith* (adroddiad Webb 2007)
- Arad Consulting: The *Evaluation of the Widening Access Activities and the Reaching Wider Initiative in Welsh Higher Education Institutions*: Ionawr 2007
- Arad Consulting: *The Evaluation of the Widening Access Activities and the Reaching Wider initiative: Additional Work to Support the Evaluation Consultation Process*: Mehefin 2007
- *Strategaethau Dysgu ac Addysgu Sefydliadau Cymru 2007-08 i 2009-10; Sylwadau gan yr Academi Addysg Uwch* (2008)
- Adolygiad o Addysg Uwch yng Nghymru Cam 1 (2008) gan Yr Athro Merfyn Jones
- Llythyrau cylch gorchwyl o 2006 i 2009 o Lywodraeth Cynulliad Cymru i CCAUC

Atodiad 2 – Cylchlythyrau CCAUC 2006/2009 sy'n gysylltiedig ag Ehangu Mynediad

- W06/03HE: Widening Access
- W06/05HE: Widening Access Strategy Implementation Plans/Disability Provision Development Plans 2004/05 and 2005/06, Race Equality Impact Assessments in Widening Access
- W06/08HE: Widening Access
- W06/12HE: Part-time Undergraduate Fee Waiver Scheme & Monitoring and Reporting
- W06/13HE: A New Disability Coordination Service for HEIs in Wales
- W06/20HE: Race Equality Polices, Action Plans and Reports
- W06/27HE: Widening Access Guidance
- W06/30HE: The HEFCW part-time undergraduate fee waiver scheme
- W06/41HE: Disability Equality Scheme Consultation
- W06/55HE: Welsh Medium Provision Fund 2006/07
- W06/56HE: Welsh Medium Premium Consultation
- W07/07HE: Gender Equality Scheme (GES)
- W07/08HE: 2004/05 Participation Rates
- W07/09HE: Consultation: The National Evaluation of Widening Access Funded Activities and the Reaching Wider Initiative
- W07/10HE: Reaching Wider Initiative
- W07/20HE: Part-Time Undergraduate Fee Wavier Scheme: Monitoring & Reporting
- W07/24HE: Evaluation and Review of Institutional Race Equality Policies
- W07/25HE: Welsh Medium Provision Development Fund: Consultation
- W07/29HE: The HEFCW Part-Time Undergraduate Fee Waiver Scheme 2007/08
- W07/35HE: Additional Support for Part-Time Students 2007/08
- W07/36HE: Welsh Medium Premium Payments
- W07/37HE: Widening Access to Higher Education Feedback
- W07/38HE: Reaching Wider Initiative
- W07/40HE: Evaluation and Review of Institutional Race Equality Policies Overview Report
- W07/45HE: Reaching Wider Funding Guidance 2008/10
- W07/49HE: Welsh Medium Provision Development Fund
- W08/11HE: HEFCW Equality Scheme Consultation
- W08/22HE: Widening Access to Higher Education: 2008/09 Allocations and Related Information
- W08/23HE: Additional Support for Part-Time Students 2008/09
- W08/27HE: The HEFCW Part-Time Undergraduate Fee Waiver Scheme

Atodiad 3 Ystod arwyddol o weithgareddau a ddatblygwyd gan y Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach

Codi dyheadau ar gyfer Addysg Uwch

- Diwrnodau ACE (Anelu at Addysg Coleg)
- Blas ar Fywyd yn y Brifysgol
- Diwrnodau blasu
- Cyrsiau blasu
- Adolygu ar gyfer TGAU

Gweithgareddau codi sgiliau: gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM)

- Wythnos Gwyddoniaeth
- Cylchffordd Gwyddoniaeth
- Camu i fyny at Wyddoniaeth
- Diwrnodau Difyrrwch Gwyddoniaeth
- Gwyliau Gwyddoniaeth Seryddiaeth Gymunedol
- Wythnos Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Efelychydd Peirianneg

Gweithgareddau codi sgiliau: celfyddydau

- Clwb Celf Ychwanegol
- Ysgol Gelf i'r Haf
- Gwyliau Llenyddiaeth
- Dysgu drwy Gelf
- Modelau rôl Celf a Dylunio
- Theatr mewn Addysg

Gweithgareddau codi sgiliau: gwaith cyffredinol gydag ysgolion

- Compactau Ysgolion
- Cynllun compact camu i fyny
- Cryts ar y Campws
- Clybiau ar ôl yr Ysgol
- Dosbarthiadau meistr
- Rhaglen Gyfleoedd Talent
- Sioeau teithiol
- Gofal ceffylau a marchogaeth
- Ffansio Byrbryd
- Gwersylloedd Chwaraeon
- Campau'r Ddraig
- Campau Olympaidd Bach
- Dysgu trwy Chwaraeon
- Prifysgol Plant /Ieuenctid
- Dechrau o'r Newydd
- Her y Farchnad Stoc

Gweithio gydag Oedolion

- Grwpiau Ysgrifennu
- Grwpiau Celf
- Wythnos Oedolion sy'n Dysgu
- Grwpiau Ieithoedd Modern
- Gweithwyr ymfudol
- Ffoaduriaid/Ceiswyr Lloches

Ystafell ddosbarth symudol
Gweithio gyda Grwpiau U3A
Cymunedau Dysgu
Ymestyn i Fyny

Atodiad 4 – Buddion yn Codi o'r Fframwaith Dilyniant Addysg Uwch (HEPF) yn Lloegr

Buddion ar gyfer dysgwyr a dargedir o gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol:

- cymorth i ddysgwyr ar adegau allweddol ar y 'daith' i Addysg Uwch – tynnu rhwystrau ymaith mewn ffordd systematig ac ar adegau priodol
- cymorth y gellir ei deilwra a'i dargedu
- datblygu sgiliau gan gynnwys hunan-fyfyrio, cynllunio gyrfaoedd a gwneud penderfyniadau
- gwell dealltwriaeth o fuddion Addysg Uwch.

Buddion ar gyfer ysgolion a cholegau:

- gwella'r cyd-destun addysgol sefydliadol, gan gynnwys darparu cysylltiadau cwricwlaidd clir dros amser. Yr enghreifftiau mwyaf clir o fodel dilyniant yw lle caiff y rhaglen ei gwerthfawrogi a'i hyrwyddo gan yr ysgol/coleg a'i hintegreiddio yn y cwricwlwm.
- addasu i anghenion unigol yn ogystal â rhai'r garfan a datblygiad ymagwedd sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr.

Buddion ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch:

- mae dysgwyr yn deall Addysg Uwch ac mae ganddynt y cyfle i ddatblygu'r sgiliau priodol
- mae'n darparu mecanwaith i sefydliadau ymgysylltu â dysgwyr cyn iddynt ymuno â'r sefydliad
- mae'n helpu dysgwyr i wneud y dewisiadau cywir ac yn gwella'r cyfleoedd am ddilyniant.

Rhagor o fanylion pellach ar
http://www.actiononaccess.org/index.php?p=19_1_2_2

The Higher Education Academy

www.heacademy.ac.uk

The Higher Education Academy
Innovation Way
York Science Park
Heslington
York YO10 5BR

Tel: +44 (0)1904 717500
Fax: +44 (0)1904 717505

© The Higher Education Academy
October 2009

All rights reserved. Apart from any fair dealing for the purposes of research or private study, criticism or review, no part of this publication may be reproduced, stored in a retrieval system, or transmitted, in any other form or by any other means, graphic, electronic, mechanical, photocopying, recording, taping or otherwise, without the prior permission in writing of the publishers.

To request copies of this report in large print or in a different format, please contact the Academy.